



CREU DYFODOL I'R GYMRAEG

RHAGLEN WEITHREDU

**TO DDO
DYFO**

*CREU
DYFODOL
I'R GYMRAEG*

**RHAGLEN WEITHREDU
2015**

Cynnwys

| | |
|----|---------------------------------------|
| 3 | Crynodeb gweithredol |
| 6 | Rhagair |
| 7 | 1 / Egwyddorion a Blaenoriaethau |
| 10 | 2 / Addysg |
| 14 | 3 / Cymraeg i Oedolion |
| 16 | 4 / Cymunedau'r Gymraeg |
| 18 | 5 / Y Cyfryngau a Diwylliant |
| 19 | 6 / Economi Ffyniannus |
| 22 | 7 / Rhoi a Derbyn Gwasanaeth |
| 25 | 8 / Cynllunio Defnydd Tir a Chartrefi |
| 26 | 9 / Lledaenu deall dwyieithrwydd |
| 28 | 10 / Trefniadaeth newydd |

Hawlfraint Dyfodol i'r Iaith © 2015

Rhif Llyfr Rhyngwladol: 978-1-78461-204-7

Cyhoeddwyd gan Dyfodol i'r Iaith, 3 Teras Fictoria,
Biwmares, Sir Fôn LL58 8BU

Argraffwyd a dyluniwyd gan Y Lolfa

Am fanylion llawn am Dyfodol i'r Iaith, ewch i'n
gwefan: www.dyfodol.net.

Crynodeb Gweithredol

Rydym yma'n cynnig rhaglen a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Rydyn ni'n gwneud hyn ar sail rhai ystyriaethau sylfaenol:

- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o genedligrwydd Cymru, ac o hunaniaeth pawb sy'n byw yma
- Gan adeiladu ar y defnydd gweledol o'r Gymraeg, a hawl unigolion i'w defnyddio, mae angen creu amodau sy'n gwneud y Gymraeg yn iaith gyntaf a naturiol cynifer o feysydd ag sy'n bosibl
- Mae angen camu o ddwyieithrwydd ansefydlog i sefyllfa ddwyieithog sy'n rhoi modd i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n ddirwysr
- Mae angen rhoi pwyslais ar hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, yn y gymuned ac yn y gwaith
- Mae angen rhoi blaenoriaeth i gynyddu addysg Gymraeg ac i ddysgu'r iaith i oedolion ar frys
- Mae angen Canolfannau Cymraeg ledled y wlad i hybu adnewyddiad yr iaith ac i greu rhwydweithiau i siaradwyr yr iaith
- Mae angen defnyddio'r Gymraeg yn helaeth yn y gwaith a'r economi
- Mae angen i'r Gymraeg gael blaenoriaeth mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol
- Mae angen creu momentwm i dwf yr iaith a'i normaleiddio ym mywyd y genedl ar bob lefel
- Mae angen i bobl Cymru fod â rhan weithredol yn hyn

Addysg

Rydym yn credu bod ehangu addysg Gymraeg yn allweddol. Mae angen cyflymu'r twf, gan adlewyrchu awydd rhieni Cymru i'w plant allu siarad yr iaith.

- 50% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2030
- Dysgu'r Gymraeg fel un iaith; bydd hyn yn cryfhau dilyniant iaith rhwng pob sector addysg
- Dileu gorfod talu am gludiant i addysg 16+
- Rhoi pwyslais ar ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg
- Sefydlu system dracio cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg i annog defnydd o'r Gymraeg
- Pwyslais ar gyfathrebu bob dydd i ddisgyblion ysgolion Saesneg a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng
- Cyflwyno rhaglen drylwyr o ymwybyddiaeth iaith yn y cwricwlwm
- Hyrwyddo addysg Gymraeg ymysg rhieni
- Cefnogaeth ariannol i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg
- Pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyrsiau addysg bellach sy'n cynnwys ymwneud â chwsmeriaid
- Creu cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch astudio yng Nghymru

Cymraeg i Oedolion

Rydym yn ystyried bod ehangu Cymraeg i Oedolion yn hanfodol er mwyn dysgu'r iaith i rieni, i swyddogion cyhoeddus, ac i greu gweithlu dwyieithog. Mae angen dysgu'r iaith trwy raglenni dwys a chyflawn.

- **Treblu'r cyllid i Gymraeg i Oedolion er mwyn:**
- **Rhoi hyfforddiant iaith i athrawon a gweithwyr cyhoeddus**
- **Rhoi hyfforddiant iaith i rieni sydd am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref**
- **Cynnig cyrsiau dwys dros flwyddyn a chynnig hyd at 1,200 o oriau cyswllt**

Cymunedau'r Gymraeg

Mae angen rhoi blaenoriaeth i gymunedau'r Gymraeg, gan gynnwys y cartref, cryfhau cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol a sefydlu rhwydweithiau newydd mewn ardaloedd llai dwys eu Cymraeg.

- Cynyddu cartrefi Cymraeg**
- Bywiogi cymunedau Cymraeg**
- Sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg fydd yn bwerdai i'r iaith**

Y Cyfryngau a diwylliant

Mae sicrhau cyfryngau a diwylliant Cymraeg yn hollbwysig, ac mae angen rhoi sylw arbennig i ddiwylliant yr ifanc.

- **Sefydlu Uned Ddiwylliant o dan yr Asiantaeth Iaith Genedlaethol i osod targedau ar draws y maes fydd yn cynnwys:**
- **Papur dyddiol Cymraeg, gyda darpariaeth gwe yn Gymraeg a Saesneg**
- **Sicrhau dyfodol ariannol S4C**
- **Datblygu dwy orsaf radio Gymraeg**
- **Cwmpasu cyfryngau electronig**
- **Darparu'n effeithiol i rai o bob oed a diddordeb**
- **Cryfhau darpariaeth perfformiadau cerddoriaeth a theatr**

Economi Ffyniannus

Mae cysylltiad iaith ac economi'n ddyrys, ac nid oes modd rheoli'n fanwl. Fodd bynnag, mae angen creu mewn ardaloedd dwys eu Cymraeg gyffro economaidd fydd yn gallu peri bod gan siaradwyr Cymraeg gyfleoedd gwaith atyniadol.

- **Sefydlu Asiantaeth Busnes Cymraeg**
- **Canolfannau twf mewn ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg**
- **Datganoli sefydliadau cenedlaethol i ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg**
- **Hyrwyddo polisi caffael lleol**
- **Sefydlu Marchnad Llafur Cymraeg i gysylltu'r angen am wasanaethau Cymraeg â siaradwyr Cymraeg.**

Rhoi a Derbyn Gwasanaeth

Mae angen mwy na chynnig gwasanaeth blaen desg dwyieithog. Mae angen i'r Gymraeg fod yn iaith fyw yn y gweithle. Mae gwneud y Gymraeg yn iaith gwaith mewn llywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus yn hanfodol.

- **Sicrhau tirwedd ieithyddol Gymraeg**
- **Datblygu'r Gymraeg yn iaith gwaith a**

gweinyddu mewn llywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus

- **Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn iaith drafod/lafar**
- **Trosglwyddo awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru**

Cynllunio Defnydd Tir a Chartrefi

Mae angen gwneud yr hyn sy'n bosibl i sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol, ac i beri nad yw'r system gynllunio'n milwrio yn erbyn siaradwyr Cymraeg.

- **Y Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio**
- **Pennu Ardaloedd ag Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig**
- **Sefydlu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru**
- **Blaenoriaeth i dai cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pobl leol**
- **Defnyddio system bwytiau sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl leol**

Lledaenu deall dwyieithrwydd

Wrth greu gwlad o siaradwyr Cymraeg, mae angen deall sut mae iaith yn cael ei defnyddio gan siaradwyr, beth yw swyddogaethau iaith, a beth yw dwyieithrwydd.

- **Y Llywodraeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith**
- **Cydnabod y Gymraeg yn iaith i'w hyrwyddo ymysg mewnfudwyr**
- **Sefydlu Athrofa Ieithyddiaeth Genedlaethol**

Trefniadaeth newydd

Ar hyn o bryd mae gwendidau amlwg yn sut mae'r Gymraeg yn cael ei thrafod gan wahanol adrannau'r llywodraeth. Er mwyn cael sail gadarn na fydd ar fympwy gwleidyddion rydym am weld Gweinyddiaeth iaith gref yn y Llywodraeth, wedi'i harwain gan arbenigwyr mewn cynllunio iaith. I gyd-fynd â hon mae angen Asiantaeth Iaith Genedlaethol i weithredu polisïau.

- **Sefydlu Gweinyddiaeth iaith gref yn y Llywodraeth i lunio polisïau a thargedau, wedi'i harwain gan arbenigwyr mewn cynllunio iaith**
- **Creu Asiantaeth Iaith Genedlaethol hyd braich i weithredu polisïau'r Llywodraeth ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gall baratoi adroddiadau a chynghori am hyn i bwllgor y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Gymraeg.**
- **Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus a phreifat yn defnyddio ac yn hybu'r Gymraeg yn eu gwaith.**
- **Mae angen i fuddsoddiad y Llywodraeth yn y Gymraeg fod yn ddigonol i adlewyrchu rhaglen uchelgeisiol o greu dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg.**

Rhagair

Mudiad pwysu a lobïo yw Dyfodol i'r iaith. Dymuniad y mudiad yw gweld polisïau cadarnhaol o blaid yr iaith yn cael eu gweithredu gan lywodraeth ganol a llywodraeth leol.

Mae Dyfodol i'r iaith am i weithredu o blaid yr iaith gael ei seilio ar egwyddorion cynllunio iaith sydd wedi eu derbyn yn gyffredinol gan rai sydd wedi astudio llwyddiant ieithoedd bach.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno rhaglen weithredu sy'n cynnig ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg, a'i gwneud yn bosibl i nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig ffyrdd o sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn iaith fyw yn y cartref, yn y gymuned, ac yn y gwaith.

Mae Dyfodol i'r iaith eisoes wedi cynnig nifer o argymhellion sydd wedi cael eu derbyn gan lywodraeth ganol a lleol. Bu'r mudiad yn allweddol wrth gael y Llywodraeth i dderbyn bod y Gymraeg yn rhan o'r Mesur Cynllunio. Derbyniodd Sir Gâr holl argymhellion y mudiad yn ei pholisi Cymreigio. Derbyniwyd argymhelliad Dyfodol i greu Uned ganolog i yrru Cymraeg i Oedolion. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi gweithredu yn unol ag argymhelliad Dyfodol i sefydlu Canolfannau Cymraeg ledled y wlad.

Cychwyn y daith yw hyn. Rydym yma'n cyflwyno rhaglen i'w mabwysiadu gan y pleidiau gwleidyddol wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad. Yn ogystal â

gosod meysydd polisi, rydym yn galw am newid sylfaenol yn nhrefn y Llywodraeth wrth iddyn nhw ddelio â'r Gymraeg.

Rydym yn edrych ymlaen at drafod a datblygu ein rhaglen gyda gwahanol bleidiau a gwahanol gyrff a sefydliadau. Mae nifer o'r pwyntiau sydd gennym yn rhai y mae modd gweithredu arny'n nhw'n fuan. Mae pwyntiau eraill yn galw am newid mwy sylfaenol.

Elinor Jones, Llywydd

Heini Gruffudd, Cadeirydd

Simon Brooks, Ysgrifennydd

Huw Edwards, Trysorydd

Aelodau eraill Bwrdd Dyfodol i'r iaith: Emyr Lewis, Cynog Dafis, Elin Walker Jones, Judith Humphreys, Gwion Owain, Robat Gruffudd, Richard Wyn Jones, Catrin Alun, Eifion Lloyd Jones, Meirion Llewelyn

Ruth Richards, Prif Weithredwr

Meinir James, Gweinyddwr

Cyswllt: Ruth Richards, ruth@dyfodol.net
3 Teras Fictoria, Biwmares, Sir Fôn LL58 8BU

1 / Egwyddorion

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Hwyluso cynnydd yn nifer cartrefi Cymraeg**
- **Y Gymraeg i gael blaenoriaeth mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol**
- **Cryfhau meysydd lle mae'r Gymraeg yn ddewis cyntaf a naturiol**
- **Sefydlu Gweinyddiaeth iaith gref yng nghalon y llywodraeth i lunio polisïau**

Hawliau a Hyrwyddo: Symud y Pwyslais

Ein barn ni yw bod llewyrch yr iaith Gymraeg yn hanfodol i ddatblygiad cenedlaethol Cymru. Ar hyd y canrifoedd a than yn gymharol ddiweddar y Gymraeg fu'n brif iaith y genedl. Y Gymraeg yw iaith neilltuol Cymru. Hi yn fwy na dim a ffurfiodd ein hunaniaeth fel cenedl.

Bu'r frwydr dros hawliau i'r Gymraeg a'i siaradwyr dros yr hanner canrif diwethaf yn galed, yn gyffrous ac yn drawsnewidiol. Mae'n allweddol na fydd dim llaesu dwylo yn y maes yma a'n bod yn adeiladu ymhellach ar yr hyn a enillwyd.

Yn awr, rhaid adeiladu ar y sylfaen angenrheidiol hon drwy symud y pwyslais i raglen gynhwysfawr a chydlynus o hyrwyddo'r Gymraeg yn iaith y cartref ac yn iaith gymunedol fyw ac anturus.

Twf, nid Gwarchod

Twf, datblygiad, hyder, anturiaeth, creadigrwydd: dyma rai o'r geiriau allweddol y mae angen i'r iaith Gymraeg gael ei huniaethu â nhw wrth i ni ei rhoi ar lwybr adnewyddiad. Er

mwyn camu i'r dyfodol, mae'n hanfodol i ni weld yr hyn a gadwyd, megis y tiriogaethau lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif, nid fel gweddillion bregus i'w gwarchod, ond fel rhan o'r seiliau y mae modd adeiladu'r dyfodol arnynt.

Y Gymraeg a'r cartref

Ystyriwn mai cynyddu nifer cartrefi Cymraeg yw'r sail angenrheidiol ar gyfer dyfodol llewyrchus i'r iaith. Mae cartrefi Cymraeg yn fwy effeithiol na dim arall mewn gosod patrwm ieithyddol cadarnhaol i bobl gydol eu hoes ym mhob maes.

Dwyieithrwydd a'r Gymuned Gymraeg

Mae perygl i ddwyieithrwydd Cymru heddiw fod yn ansefydlog, a bod yn ddim ond cam rhwng Cymru Gymraeg a Chymru Saesneg. Nid oes raid i hyn fod.

Er mwyn cael seiliau cadarn i'n hymdrech i adnewyddu'r Gymraeg, rhaid deall y gwahaniaeth rhwng dwyieithrwydd personol a dwyieithrwydd cymdeithasol.

Mater o feddu ar y gallu i ddefnyddio dwy iaith yn hwylus yn ôl y gofyn yw dwyieithrwydd personol. Mae dwyieithrwydd cymdeithasol i'w gael pan fo dwy iaith yn cyd-fodoli o fewn yr un diriogaeth, ac yn meddu ar eu tir neu ar eu peuoedd eu hunain.

Peuoedd

Mae arbenigwyr wedi sylwi ar y modd y mae pobl mewn sefyllfaoedd dwyieithog yn tueddu i ddefnyddio gwahanol ieithoedd i wahanol bwrpasau. Er enghraifft, yng Nghymru yn draddodiadol bu tuedd i wahaniaethu fel a ganlyn:

Cymraeg ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chrefyddol, ac i'w defnyddio o fewn y teulu, wrth gymdeithasu ac i raddau mewn addysg gynradd; dyma fu peuoedd y Gymraeg.

Saesneg ar gyfer gweithgarwch swyddogol, y gyfraith, byd busnes ac addysg uwchradd ac uwch; dyma fu peuoedd y Saesneg.

Erbyn hyn, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth. Enillodd y Gymraeg droedle mewn bywyd swyddogol ac addysg uwchradd ac uwch a threiddiodd y Saesneg i beuoedd a fu gynt yn gyfan gwbl Gymraeg. Yr hyn sy'n dal yn wir, fodd bynnag, yw bod angen i'r Gymraeg feddu ar ei peuoedd ei hun, lle bydd ei defnydd yn naturiol-ddiofyn, er mwyn iddi ffynnu.

Fel y gwyddom i gyd, fodd bynnag, mae tuedd mewn sefyllfa felly i un o'r ddwy iaith ddisodli'r llall dros amser. Felly y disodlwyd y Gymraeg gan y Saesneg am nifer o resymau mewn rhannau helaeth o'n gwlad.

Mae perygl heddiw i ddwyieithrwydd gael ei ddefnyddio fel dadl dros gyflwyno'r Saesneg i agweddau ar fywyd cymdeithasol sydd wedi arfer bod yn uniaith Gymraeg. Mae hyn yn tarddu o gamddeall natur dwyieithrwydd adeiladol, a'i effaith yw tanseilio'r peuoedd Cymraeg sy mor hanfodol i'w pharhad a'i ffyniant.

Y ffordd o osgoi'r duedd anffodus yna yw drwy fod gan yr iaith fwyaf bregus o'r ddwy ei 'pheuoedd' ei hun - lleoedd, sefydliadau, agweddau ar fywyd lle y bydd ei defnyddio yn naturiol, yn anochel, yn ddiodyn. Yn y ddogfen hon, rydym yn trafod sut y mae sicrhau y bydd gan y Gymraeg ei pheuoedd ei hun.

Rydym am i Gymru fod yn esiampl o sut y gall y ddau fath o ddwyieithrwydd ffynnu a chynyddu yn hytrach na dilyn y patrwm cyfarwydd o fod yn symudiad cymdeithasol o un iaith i iaith arall.

Er mwyn llwyddo yn hyn, rhaid cydnabod yn y lle cyntaf nad yw'r berthynas rhwng dwy iaith Cymru'n gyfartal. Mae grym ac apêl aruthrol gan y Saesneg, yn un o brif ieithoedd llywodraethol, masnachol a diwylliannol y byd. I raddau helaeth, felly, ystyr ymarferol creu Cymru ddwyieithog yw cyfnerthu a hyrwyddo adnewyddiad y Gymraeg ym mhob dull a modd.

Yn ail, rhaid deall mai ffenomen gymdeithasol yw iaith. Rhaid i unrhyw iaith fyw wrth ei chymuned o siaradwyr - y bobl hynny sy'n ei defnyddio'n naturiol yn eu bywyd bob dydd. Bydd y 'gymuned Gymraeg' hon yn cynnwys y rhai a fagwyd i'w siarad o'u babandod ac eraill a'i dysgodd a'i mabwysiadu yn nes ymlaen yn eu bywydau. I rai, bydd defnyddio Cymraeg yn dod yn naturiol MYR PROam mai hi yw prif iaith y fro lle maent yn byw. Mae ardaloedd felly, wrth reswm, yn adnodd amhrisiadwy wrth i ni fwrw ati i adnewyddu'r Gymraeg. I eraill, ac yn gynyddol felly, drwy rwydwaith o deuluoedd, unigolion a sefydliadau y daw'r cyfle i fyw eu bywydau yn Gymraeg. Yn y ddau

Cymdeithaseg iaith a Chynllunio Ieithyddol

Dros y degawdau diwethaf cynyddodd ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ieithoedd a chymdeithas drwy ddatblygiad gwyddor Cymdeithaseg iaith. Arloesydd y wyddor oedd Joshua Fishman, a fu farw ym mis Mawrth 2015. Mae'n arwyddocaol i Wlad y Basgiaid, cymuned ymreolus y Basgiaid yng ngwladwriaeth Sbaen, benodi Fishman yn ymgynghorydd arbennig wrth iddyn nhw fynd ati i gynllunio adnewyddiad y Fasgeg. Ymhlith rhai o brif gysyniadau'r wyddor y mae 'shifft iaith', sef y broses o ddisodli un iaith gan iaith arall mewn cymdeithas neu diriogaeth arbennig. Syniad arall o bwys yw 'diglosia', yr arfer o ddefnyddio gwahanol ieithoedd at wahanol ddibenion, neu 'peuoedd', gwahanol.

Bathodd Fishman hefyd y term 'gwrthdroi shifft iaith' am y broses o fynd ati i adnewyddu a chryfhau ieithoedd a fu ar encil. Er mwyn gwneud hynny mae angen cynllunio gofalus, deallus - yr hyn a elwir yn 'Gynllunio Ieithyddol'.

achos, mae'n amlwg y bydd iaith y teulu yn ddylanwad grymus.

Grymuso'r gymuned Gymraeg a'i galluogi i ymsefydlu a thyfu: dyma'r allwedd i droi slogan 'Cymru ddwyieithog' yn realiti. Bydd gorwelion y gymuned Gymraeg yn eang a'i gweledigaeth yn gynhwysol. Bydd yn agored i newydd-ddyfodiaid ac i ddylanwadau amrywiol. Bydd yn gyfrannydd egniol i fywyd y genedl gyfan ac i'r byd ehangach.

Amrywiaeth Ranbarthol

CALIBRIProsiect i'r genedl gyfan fydd adnewyddiad y Gymraeg. Gyda rhai eithriadau, mae pob rhan o Gymru yn 'ardal draddodiadol Gymraeg' ac mae ei hadfywiad heddiw mewn bröydd lle y peidiodd â bod yn brif iaith lafar ers tro yn fater i ymfalchïo o'i blegid.

O fewn y cyd-destun cenedlaethol yma, fodd bynnag, mae i ranbarthau ac ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg arwyddocâd ieithyddol ymarferol arbennig. Dros yr hanner canrif diwethaf daeth y Gymraeg yn brif iaith addysg a llywodraeth leol yng Ngwynedd ac ennill safle arbennig yn yr hen Ddyfed. Mae cyfle pwysig i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn y ranbarthau hyn tra'n cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn bywyd cyhoeddus a chymdeithasol dros amser ym mhob rhan o Gymru. Cadarnleoedd ar gyfer ymgyrchoedd ehangach fydd y ranbarthau hyn.

Strategaeth Gydlynus

Nid drwy gamau gwasgarog y mae llwyddo i adnewyddu'r Gymraeg ond drwy strategaeth gydlynus wedi'i gweithredu'n gyson dros gyfnod estynedig o amser. Rhaid i'r Gymraeg gael ei phrif-ffrydio a'i hystyried ar draws holl feysydd polisi cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd rhaid pennu blaenoriaethau hefyd. Bydd angen canolbwyntio'n arbennig ar y rheini a'u gweithredu yn drefnus, yn benderfynol ac yn gydlynus. I'r diben yma, bydd angen i'r strwythurau llywodraethol fod yn addas a digonol.

Bydd gwersi i'w dysgu yn hyn o beth gan genhedloedd/rhanbarthau a gafodd lwyddiant wrth adnewyddu'u hieithoedd cynhenid ac yn arbennig gan Wlad y Basgiaid yng ngwladwriaeth Sbaen, yr oedd eu hamgylchiadau a'u man cychwyn yn hynod o debyg i rai Cymru. Sail eu strategaethau nhw oedd dealltwriaeth gadarn o wyddor Cymdeithaseg iaith ac o Gynllunio Ieithyddol.

Partneriaeth a Chydysniad

Wrth reswm, nid mater i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn unig yw rhoi adnewyddiad yr iaith ar waith. Rhaid cael ymdrech greadigol o'r gwreiddiau i fyny yn ogystal â chyfeiriad a chynllunio o'r brig i lawr. Mae'n angenrheidiol felly sefydlu partneriaeth fywiol rhwng y Llywodraeth ar y naill law a'r gymuned Gymraeg, ei haelodau, ei mudiadau a'i sefydliadau ar y llaw arall.

Rhan y Llywodraeth fydd gosod y nod a sefydlu cyfeiriad; arwain, cynllunio a hwyluso; a darparu adnoddau ariannol. Mae angen Asiantaeth Iaith Genedlaethol i weithredu'r amcanion.

Rhan y gymuned Gymraeg yn y gwreiddiau fydd ymateb i'r arweiniad drwy fwrlwm arloesol o greu, mentro a chydweithio, a hybu ei hadnoddau dynol ac ariannol ei hunan.

Rydym yn rhagweld deialog gyson rhwng y Llywodraeth a'r Gymuned ynghylch cynlluniau, anghenion, blaenoriaethau a datblygiadau newydd. Bydd angen penderfynu ar drefniadau cadarn i alluogi'r ddeialog yma i ddigwydd.

Gwlad y Basgiaid

Mae Cymuned Ymreolus y Basgiaid o fewn gwladwriaeth Sbaen yn cynnig esiampl gadarnhaol o gynllunio iaith effeithiol.

Mae tua 1.8 miliwn yn byw yn y Gymuned Ymreolus. Yno mae canran siaradwyr yr iaith wedi codi o 24% yn 1991 i 30% yn 2006, gydag 18% arall yn siaradwyr goddefol. Yn yr holl wlad cododd nifer y siaradwyr (rhaf dros 16) o 665,800 yn 2006 i 714,136 yn 2011.

Caiff gweision sifil a swyddogion llywodraeth hyfforddiant iaith ar draul y wlad. Bu rhaglen i Fasgeiddio llywodraeth leol yn raddol.

Yn 1976-77 doedd dim gwybodaeth o'r Fasgeg gan 95% o athrawon cynradd. Gan ymateb i alw gan rieni, buddsoddwyd yn helaeth mewn hyfforddiant iaith i athrawon er mwyn Basgeiddio addysg. Erbyn 2010 roedd 65% o ddisgyblion cynradd mewn ysgolion Basgeg a 25% mewn ysgolion dwyieithog: o 5% i 90% mewn 35 mlynedd.

Rhan allweddol o'r cyfan oedd cyfraniad y drefn ddysgu Basgeg i oedolion. Caiff €40m ei wario ar gynnal 105 o ganolfannau dysgu, gyda 1,344 o athrawon a thua 35,000 o ddysgwyr y flwyddyn.

Enillodd y Fasgeg 300,000 o siaradwyr newydd dros y 30 mlynedd diwethaf: 200,000 trwy'r ysgolion a 100,000 drwy'r rhaglenni Basgeg i Oedolion.

Y Gymraeg a Llywodraeth Cymru

Yn fuan wedi i Gymru ennill mesur o hunan-lywodraeth, datganodd ein Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru eu cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ac i'r nod o greu Cymru ddwyieithog. Deddfwyd o'r newydd i roi statws swyddogol diarnwys iddi ac i ddiogelu hawliau ei siaradwyr. Mae hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg yn nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Chweched amcan y Ddeddf yw cael 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac mae gwarchod a hyrwyddo 'diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg' bellach yn rhan o ddeddf. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar lywodraeth ganol a lleol, cyrff cyhoeddus Cymru, sefydliadau addysg a diwylliant, a gwasanaethau cyhoeddus o bob math.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyhoeddwyd sawl dogfen gan y Llywodraeth a'i hadrannau ar wahanol agweddau ar y Gymraeg. Mae *Bwrw Mlaen* yn datblygu ar *Iaith Fyw, Iaith Byw*. Cafwyd hefyd *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Mwy na Geiriau* ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Rydym yn cydnabod yr ewyllys da sydd yn y dogfennau hyn, ond mae'r symud ymlaen yn llawer rhy araf, ac nid yw'r dogfennau bob tro wedi'u seilio ar hanfodion cynllunio iaith, sef cychwyn gyda'r cartref a'r gymuned. Mae angen cyflymu'r gweithredu ar frys, ac ar raddfa lawer mwy nag sydd wedi bod.

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod yr angen am ddatblygu'r economi i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, ac i gryfhau cymunedau Cymraeg ond ni chafwyd ateb am sut i wneud hyn.

Daeth yn bryd i ni adeiladu ar yr ewyllys da. Ond mae angen rhoi gyriant newydd yn yr ymgyrch i ddatblygu'r Gymraeg yn iaith genedlaethol amlwg, ddeinamig a hyderus.

2 / Addysg

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **50% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2030**
- **Dysgu'r Gymraeg fel un iaith; bydd hyn yn cryfhau dilyniant iaith rhwng pob sector addysg**
- **Dileu gorfod talu am gludiant i addysg 16+**
- **Rhoi pwyslais ar ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg**
- **Sefydlu system dracio cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg i annog defnydd o'r Gymraeg**
- **Pwyslais ar gyfathrebu bob dydd i ddisgyblion ysgolion Saesneg a defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng**
- **Cyflwyno rhaglen drylwyr o ymwybyddiaeth iaith yn y cwricwlwm**
- **Hyrwyddo addysg Gymraeg ymysg rhieni**
- **Cefnogaeth ariannol i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg**
- **Pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyrsiau addysg bellach sy'n cynnwys ymwneud â chwsmeriaid**
- **Creu cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch astudio yng Nghymru**

Cafodd y gyfundrefn addysg ddylanwad aruthrol ar hynt y Gymraeg. Twf graddol mewn addysg Gymraeg dros y can mlynedd diwethaf yn fwy na dim a'i galluogodd i oroesi hyd y dydd heddiw.

Mae cynnydd mewn addysg Gymraeg yn flaenoriaeth heddiw wrth drefnu strategaeth i adnewyddu'r iaith. Drwy hynny y mae modd creu crynswth critigol o siaradwyr Cymraeg. Hyn fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r iaith gael lle blaenllaw maes o law mewn nifer cynyddol o beuoedd, yn y cartref, y gweithle ac mewn bywyd cymdeithasol yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd allweddol hyn wrth gyhoeddi *Strategaeth Addysg Gymraeg* yn 2010. Fodd bynnag mae'n annhebygol y caiff targedau'r Llywodraeth eu cyrraedd; ac mae twf addysg Gymraeg yn llawer rhy araf.

Ein barn ni yw bod targed o 50% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2030 yn gwbl realistig. Byddai hynny'n trawsnewid rhagolygon yr iaith yn ogystal â dwyn bendithion addysgol pwysig yn ei sgil.

Wrth ymateb i'r galw am addysg Gymraeg, mae angen rhoi cyfle i rieni di-Gymraeg ddysgu'r iaith a throi eu cartrefi'n rhai Cymraeg. Dylid cryfhau esiampl rhai siroedd sydd wedi sefydlu rhaglenni cyswllt i rieni i hyrwyddo datblygu sgiliau ieithyddol a defnydd o'r iaith yn y cartref. Yr un pryd mae angen sefydlu rhaglenni i droi rhieni sydd â sgiliau goddefol i fod yn siaradwyr hyderus yn y cartref. Dylai hyn fod yn un o flaenoriaethau Uned Genedlaethol Cymraeg i Oedolion a fydd o hyn ymlaen yn gyfrifol am drefnu Cymraeg i Oedolion.

Y Blynyddoedd Cynnar

Cafodd gwaith gwych ei wneud yn y blynyddoedd cynnar, yn arbennig gan y Mudiad Meithrin (MM) â'i rwydwaith eang o gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd chwarae.

Ochr yn ochr â hyn mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, fel Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg, yn milwrio yn erbyn y Gymraeg. Mae anawsterau teithio yn aml yn rhwystr i rieni sydd am gael addysg feithrin Gymraeg i'w plant. Mae diffyg lle mewn llawer

o ddsbarthiadau meithrin yn yr ysgol Gymraeg leol. Rhaid symud y rhwystrau hyn.

Mae angen mynd i'r afael hefyd â'r prinder staff sydd â sgiliau Cymraeg drwy ddarparu hyfforddiant effeithiol i staff cylchoedd chwarae a dosbarthiadau meithrin ac i fyfyrwyr mewn addysg bellach.

Dylid cynnal awdit cynhwysfawr o'r drefn bresennol, gan gynnwys darpariaeth MM, Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg, ac mewn ysgolion. Mae angen adfer cyllid Twf, sy'n helpu rhieni i fagu eu plant yn Gymraeg ond y torrwyd yn ôl ar ei gyllid yn ddiweddar.

Dylid gosod targed o 50% o gylchoedd a dosbarthiadau meithrin Cymraeg ledled Cymru erbyn 2030. Bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn gofal dydd, gofal cofleidiol a chynlluniau gwyliau Cymraeg.

Ysgolion Cynradd

Stori lwyddiant yw twf addysg Gymraeg. Rhyw 7% o'n plant sy'n derbyn y Gymraeg yn y cartref ond mae 22.4% o blant 7 oed erbyn hyn yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* mai ysgolion Cymraeg yw'r model gorau i drosglwyddo'r iaith ac i feithrin sgiliau cyfartal yn y ddwy iaith. Ar ben hynny mae ysgolion, drwy gynnal gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg, yn creu byd Cymraeg cyfan i'r disgyblion. Mae pob ysgol Gymraeg yn bau Gymraeg.

Gall ysgolion dwy-ffrwd, ac yn wir ysgolion dwyieithog a Saesneg, gael eu rhoi ar lwybr datblygu, gan gychwyn yn y dosbarth meithrin, gyda'r bwriad o'u gwneud yn ysgolion Cymraeg.

Mewn ardaloedd llai dwys eu Cymraeg, dylai'r cynlluniau ymateb yn llawn i'r galw am addysg Gymraeg. Yng Ngwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin dylai addysg Gymraeg fod yn norm. Dylai'r Llywodraeth fynnu bod awdurdodau lleol yn cadw at ddull safonol o fesur y galw, gan fonitro'r sefyllfa yn gyson ac yn drwyadl.

Does dim rhaid i hyn olygu gwariant cyfalaf mawr ychwanegol. Mae modd ad-drefnu ysgolion. Mater arall yw y dylai ysgolion Cymraeg fod yn rhan anhepgor o gynlluniau ar gyfer stadai tai

newydd. Rhaid peidio ag oedi twf o dan esgus bod lleoedd gwag mewn ysgolion.

Wrth helaethu addysg Gymraeg mae angen rhoi sylw i gryfhau'r iaith yn y berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref, er enghraifft ar batrwm Siarteri Iaith Gwynedd, Môn, Caerfyrddin a mannau eraill.

Ysgolion Uwchradd

Mae twf cyson mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn angenrheidiol er mwyn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y blynyddoedd cynnar a'r ysgolion cynradd.

Ysgolion Cymraeg

Rhaid cael ymdrech arbennig i sicrhau fod disgyblion a gafodd addysg Gymraeg yn y cyfnod cynradd yn parhau i wneud hynny yn y sector uwchradd. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n fawr ar hyn o bryd.

Mae angen dysgu'r Gymraeg fel un iaith, yn unol ag argymhelliad yr Athro Sioned Davies yn ei hadroddiad *Un Iaith i Bawb* fel na fydd hi'n bosibl i ddisgyblion newid o 'iaith gyntaf' i 'ail iaith'. Ag un ergyd, byddai hyn yn datrys y methiant dilyniant ieithyddol sydd i'w weld yn benodol mewn rhyw ddwsin o ysgolion 'dwyieithog'.

Rhwyrstr penodol i dwf addysg Gymraeg ôl 16 mewn rhai ardaloedd yw'r arfer newydd o godi tâl am gludiant i'r ysgol Gymraeg. Mae hyn yn enghraifft o gamwahaniaethu ieithyddol, ac yn groes i delerau Mesur Teithio 2008 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae codi £300 a mwy mewn rhai ardaloedd am deithio yn cosbi'r difreintiedig yn fwy na neb. Mae angen i'r Llywodraeth wahardd awdurdodau lleol rhag gwneud hyn.

Mae angen i ysgolion Cymraeg ddysgu'r holl bynciau trwy'r Gymraeg. Effaith anffodus dysgu'r Gwyddorau trwy'r Saesneg yw mai rhan gymharol fach o'u haddysg y bydd rhai disgyblion yn ei dderbyn yn Gymraeg. Mae hyn yn tansilio ysgolion Cymraeg fel pau Gymraeg.

Dangosodd adroddiad diweddar gan Estyn (*Dilyniant Ieithyddol a Safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog*, Tachwedd 2014) sut y mae hyfedredd

mewn Cymraeg ac ansawdd dysgu'n dioddef mewn ysgolion sy'n defnyddio'r ddwy iaith yn gyfochrog yn yr un dosbarthiadau. Ym Môn a Cheredigion, 20% o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf sy'n dilyn pum cwrs TGAU mewn Cymraeg yn ychwanegol i Gymraeg fel pwnc. 50% yw'r ganran yng Ngwynedd a Chaerfyrddin. Yn ôl Estyn, mae perthynas glir rhwng cyfran y cyrsiau sy'n cael eu hastudio yn Gymraeg a meistrolaeth ar yr iaith a'r defnydd cymdeithasol ohoni.

Mae'n wybyddus bod llawer o ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn ei chael hi'n anodd cael cyfle i ddefnyddio'r iaith ar ôl gadael. Dyna pam mae angen prosiect i ganolbwyntio ar gyn-ddisgyblion, gan sefydlu system dracio i gadw mewn cysylltiad â nhw, a chodi eu hyder a'u hannog i arfer eu Cymraeg yn y teulu, y gweithle a'r gymuned.

Ysgolion cyfrwng Saesneg

Nid yw'r drefn bresennol yn effeithiol nac yn gynaliadwy.

Mae adroddiad *Un Iaith i Bawb* ac adroddiad Donaldson ar y cwricwlwm, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn argymhell defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu - yn ogystal â'i dysgu yn bwnc - mewn ysgolion Saesneg. Mae angen i'r Gymraeg gael ei dysgu i safon gyfartal mewn ysgolion cynradd Saesneg fel bod dilyniant yn gallu digwydd yn yr ysgol uwchradd. Mae angen gosod targedau ymarferol ac uchelgeisiol a fydd yn galluogi disgyblion i wneud defnydd bob dydd o'r iaith ar ddiwedd cyfnod addysg ffurfiol.

Y nod yw i bawb a ddysgodd Gymraeg yn yr amgylchiadau hyn allu ei defnyddio ar gyfer cyfathrebu llafar cyffredin ac i rai a arbenigodd ynddi (e.e. drwy ei hastudio i Safon Uwch) allu cyfathrebu yn Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar i safon uchel.

Ymwybyddiaeth iaith a gweithgareddau allgyrsiol

Mae angen i'r Gymraeg gael ei dysgu mewn cyd-destun cadarnhaol ac ystyrion. Rydym am weld ymwybyddiaeth iaith yn cael ei chyflwyno'n rhan annatod o'r cwricwlwm. Rydym am i hanes a diwylliant Cymru fod yn greiddiol, fel bod y byd wedyn yn cael ei weld o bersbectif Cymreig. Mae

angen i amgueddfeydd a sefydliadau diwylliant Cymru atgyfnerthu hyn gan roi blaenoriaeth i gyflwyno diwylliant Cymru. Bydd hyn yn help i bobl ifanc ddeall eu hetifeddiaeth a bod yn rhan ohoni.

Mae gweithgareddau allgyrsiol yn hollbwysig er mwyn hyrwyddo defnydd hyderus o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r ystafell ddosbarth ac mae llawer o ysgolion Cymraeg wedi bod yn hynod o greadigol yn y maes hwn. Dylai cryfhau'r maes allweddol hwn fod yn amcan strategol gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth ariannol penodol ar gael. Mae sôn bod y Llywodraeth am ddod ag un cynllun sydd ganddynt i ben. Byddai'r canlynol ymysg elfennau penodol y strategaeth:

- **athrawon â chyfrifoldeb arbennig am ddatblygu gwaith allgyrsiol**
- **cydweithio â sefydliadau gweithgareddau a chwaraeon, y cyfryngau darlledu, yr Urdd, Ffermwyr Ifainc a'r Mentrau Iaith**
- **creu cysylltiad agos â Chanolfannau Cymraeg**

Addysg Bellach

Siomedig yw lefel y ddarpariaeth ac isel yw'r disgwyliadau ym maes hyfforddiant galwedigaethol yn y colegau a'r gweithle. Mae rhai cynlluniau clodwiw yn y sector, ac mae angen rhannu gwaith Sgiliaith, e.e., ar draws y sector. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid gofalu nad yw dysgu dwyieithog yn cymryd lle dysgu trwy'r Gymraeg a ddylai ddigwydd yn naturiol.

Y cam cyntaf angenrheidiol yw cynnal arolwg o anghenion ieithyddol y gweithlu drwy bennu meysydd y mae angen cymwysterau Cymraeg ar eu cyfer a bwrw ati wedyn i ddarparu cyrsiau ar eu cyfer. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar feysydd lle mae cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd.

O ran iaith cymunedau, mae datblygu'r Gymraeg mewn addysg bellach yn bwysicach na mewn addysg uwch. Mae angen i'r maes yma fod yn un o flaenoriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Addysg Uwch

Bu sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gam pwysig yn hanes y Gymraeg. Rhaid diogelu'r cyllid cyhoeddus a'i galluogodd i ddod i fodolaeth er mwyn iddo ddatblygu ymhellach, gan osod sail ar gyfer dysg ac arbenigedd a fydd yn eu tro yn porthi twf pellach mewn addysg Gymraeg ac yn y gweithlu Cymraeg.

Rhaid yn benodol ei alluogi i sicrhau cydweithrediad a rhwydweithio cydlynus rhwng academyddion Cymraeg ledled ein Sefydliadau Addysg Uwch.

Rydym yn argymhell sefydlu Athrofa Ieithyddiaeth Genedlaethol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu gwybodaeth a pholisi ym meysydd corpws iaith a chynllunio iaith. Dylai'r Coleg Cenedlaethol arwain y broses o sefydlu hon.

Addysgu'r Gweithlu

Mae helaethu addysg a hyfforddiant Cymraeg ar bob lefel i'r graddau uchelgeisiol sy'n cael eu disgrifio uchod yn dibynnu ar fuddsoddiad sylweddol yn natblygiad ieithyddol y gweithlu. Rhaid i addysg Gymraeg ar bob lefel fod yn brofiad cyfoethog, o ran cynnwys ac o ran ansawdd iaith, ac mae hynny'n golygu cael athrawon a gofalwyr â chanddynt feistrolaeth ar Gymraeg a dealltwriaeth o egwyddorion ieithyddol ymarferol. Bydd angen ystod eang o ddarpariaeth, gan gynnwys cyrsiau trwyadl i ddysgwyr newydd a chyrtsiau gloywi i siaradwyr dihyder neu gyfyng eu hadnoddau ieithyddol.

Yng Ngwlad y Basgiaid, bu buddsoddi helaeth yn natblygiad y gweithlu yn ffactor allweddol yn y llwyddiant i dyfu addysg Fasgeg ac i gynyddu nifer y siaradwyr yn drawiadol. I fod o ddifrif ynghylch adnewyddu'r Gymraeg, rhaid i ninnau weithredu rhaglen gyffelyb.

3 / Cymraeg i Oedolion

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Treblu'r cyllid i Gymraeg i Oedolion er mwyn:**
- **Rhoi hyfforddiant iaith i athrawon a gweithwyr cyhoeddus**
- **Rhoi hyfforddiant iaith i rieni sydd am ddatblygu'r Gymraeg yn eu cartref**
- **Cynnig cyrsiau dwys dros flwyddyn a chynnig hyd at 1,200 o oriau cyswllt**

Bydd gwasanaeth eang Cymraeg i Oedolion wrth galon y cynlluniau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol beuoedd ledled Cymru. Yng ngoleuni hyn, mae penderfyniad

diweddar y Llywodraeth i dorri'r cyllid i Gymraeg i Oedolion o 15% yn gam gwag – mae'n arwydd o fethiant i feddwl a chynllunio'n strategol.

Mae'r cyhoeddiad diweddar ynghylch sefydlu Uned Genedlaethol Cymraeg i Oedolion ('yr Endid') yn gyfle i gywiro'r diffyg yna. Mae angen mabwysiadu strategaeth a fydd yn sicrhau bod buddsoddiad sylweddol newydd yn esgor ar dwf deinamig pellach yn y defnydd o Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r blaenoriaethau canlynol yn dod i'r amlwg.

1 Gweithlu Addysg

Er mwyn cyflawni twf cyflym addysg Gymraeg a Chymreigio ysgolion Saesneg, bydd angen rhaglen bellgyrhaeddol o ddysgu a gloywi Cymraeg i athrawon, cynorthwy-wyr a gofalwyr plant. Bydd rhyddhau staff o'u gwaith am gyfnod digonol i ddilyn cyrsiau addas i'w hanghenion yn ganolog i'r ddarpariaeth. Mae'r anghenion hyfforddi i'w gweld yn y dyluniad yn glir fesul sir. [Ffynhonnell: Hywel Jones, Dehongli Ystadegau Addysg, 2014.]

2 Cartrefi

Dylid cefnogi rhieni y mae eu plant yn derbyn addysg Gymraeg a darpar rieni sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn iaith y cartref drwy gynnig cyfnodau Sabothol o'r gwaith i ddilyn cwrs addas a all fod yn ddysgu o'r cychwyn neu'n gwrs codi hyder siaradwyr goddefol. Gellid cychwyn gan anelu at ddarparu ar gyfer 500 o deuluoedd y flwyddyn. Dros 10 mlynedd fe olygai hynny bod 5000 yn rhagor o gartrefi Cymraeg.

3 Gweision Cyhoeddus a Sifil

Cyrsiau Sabothol blwyddyn neu ddwy flynedd eu hyd i ddysgu a gloywi Cymraeg yw'r

allwedd i gynyddu nifer y gweithwyr Cymraeg ac yn sgil hyn y gweithleoedd Cymraeg. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn awdurdodau a sefydliadau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith gweinyddu a chyfathrebu ond hefyd i adrannau penodol mewn sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn gweithredu'n bennaf drwy'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau iechyd a gofal.

4 Iaith y Stryd

Dylai'r un math o gyrsiau fod ar gael yn arbennig i'r sector adwerthol er mwyn i gwsmeriaid allu derbyn gwasanaeth Cymraeg.

Dysgu o Ddifrif

Barn arbenigwyr yw bod angen rhwng 1,200 a 1,500 o oriau i ddysgu iaith yn achos siaradwyr newydd. Yn Lloegr, mae cyrsiau 1,200 o oriau yn cael eu cynnig yn rhad i fewnfudwyr. Yng Ngwlad y Basgiaid, mae'n gyffredin i athrawon a swyddogion cyhoeddus gael eu rhyddhau o'u gwaith am dri mis, blwyddyn neu ddwy flynedd, i gymryd cwrs o hyd at 1,700 o oriau. Mae darpariaeth o'r math yma'n fuddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol yn ogystal â rhoi cyfle i'r rhai sydd am ddysgu a defnyddio'r iaith.

Mae ailwampio Cymraeg i Oedolion ar y llinellau uchod yn brosiect uchelgeisiol. Mae sylfeini eisoes wedi eu gosod yn yr amrywiaeth o gyrsiau dwys a sabothol llwyddiannus sydd ar gael. Bydd angen i'r Uned Genedlaethol Cymraeg i Oedolion ('yr Endid') gydweithio'n agos gyda'r darparwyr a benodir maes o law i sicrhau rhaglen uchelgeisiol fydd wedi'i thargedu'n briodol.

Dysgu Cymunedol


Dosbarthiadau unwaith neu ddwy yr wythnos ar gyfer oedolion o'r gymuned yw prif ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd. Cyfran isel o'r rhai sy'n dechrau dysgu sy'n croesi'r bont i ddod yn siaradwyr Cymraeg a mwyafrif y rheini wedi ymddeol o'u gwaith. Ni ddylid dibrisio'r corff yma o ddysgwyr, rhyw 15,000 i gyd. Mae angen darparu cyfleoedd mynych i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, gan roi sylw hefyd i droi'r garfan helaeth o siaradwyr goddefol y Gymraeg yn siaradwyr gweithredol.

Un o'r rhwystrau pennaf y mae dysgwyr yn ei wynebu yw diffyg cyfle i ddefnyddio'u

Cymraeg yn y gymuned. Y prif angen felly yw datblygu rhwydweithiau cymdeithasol lle gallant ymarfer eu hiaith newydd. Dyna un o amcanion y Canolfannau Cymraeg a drafodir yn y bennod nesaf. Gallai'r rhain fod yn lleoliadau i weithgareddau amrywiol yn ogystal â gwersi. Mae'n bwysig bod gweithgareddau anffurfiol megis siopau siarad ar gael i ddysgwyr cymunedol er mwyn dwyn ffrwyth gwersi ffurfiol.

Cyllid

Cwbl annigonol yw'r cyllid cyhoeddus sy'n cael ei glustnodi ar hyn o bryd i'r sialens a'r cyfle uchod. Yng Ngwlad y Basgiaid, sy'n hynod o debyg i Gymru o ran poblogaeth, canran y siaradwyr ac ati, mae'r llywodraeth ganol a llywodraeth leol rhyngddynt yn gwario tua €35m y flwyddyn. Dylem ninnau anelu at wariant cyffelyb.



4 / Cymunedau'r Gymraeg

MAE DYFODOL I'R IAITH AM WELD:

- i. **Cynyddu cartrefi Cymraeg**
- ii. **Bywiogi cymunedau Cymraeg**
- iii. **Sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg fydd yn bwerdai i'r iaith**

Cymdeithas Symudol

Symud parhaus yw un o nodweddion ein cymdeithas gyfoes i lawer: cymudo i'r gwaith, teithio i hamddena ac anturio, i gyrchu adloniant ac i ymweld â pherthnasau a chyfeillion. Symud i fyw hefyd. Canlyniad hyn oll yw bod syniadau traddodiadol am gymdogaeth a chymdeithas a chymuned yn rhwym o newid.

Un o effeithiau'r newid mawr hwn yng Nghymru yw bod y gwahaniaeth cyfarwydd rhwng 'ardaloedd Cymraeg' ac 'ardaloedd Seisnigedig' yn llai cadarn o lawer nag y bu. Bellach, mae cyfran helaeth iawn o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn ardaloedd lle mai Saesneg yw prif iaith y rhan fwyaf o beuoedd cymdeithasol. Wrth ystyried y realiti yma, rhaid hefyd ystyried y ffaith fod llawer o'n hardaloedd mwyaf Cymraeg yn dioddef o nychdod economaidd sy'n peri i gyfran uchel o'n hieuenctid ymadael i chwilio am waith tra bod newydd-ddyfodiaid yn symud i mewn. Hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny, felly, bydd tuedd i'r Saesneg dreiddio i beuoedd cymdeithasol a fu gynt yn gyfan gwbl Gymraeg.

Yn y bröydd hyn, y bwriad fyddai i'r Gymraeg fod yn iaith naturiol, ddiodyn, bywyd yn gyffredinol: yn y stryd, y caffi, yr archfarchnad, mewn gweithgareddau addysgiadol, adloniadol a diwylliannol ac yn y gweithle.

Rhwydweithiau Cymraeg

Yma ac yng ngweddill Cymru yr angen yw datblygu'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys dysgwyr, i ddefnyddio'u hiaith yn helaeth ac yn ddirwysr. Drwy'r rhwydweithiau yma y mae modd darparu'r peuoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol, ddiodyn. Eisoedd mae rhwydweithiau felly yn bod ac yn ffynnu drwy ymdrechion gwirfoddol. Rydym am weld Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill yn cefnogi rhwydweithiau felly ac yn ysgogi eu creu fel elfen allweddol yn strategaeth adnewyddu'r Gymraeg. Bydd y Canolfannau Cymraeg sy'n cael eu trafod isod yn allweddol i'r pwrpas yma.

Cartrefi

Mae cadarnhau'r Gymraeg yn iaith y cartref yn allweddol o ran trosglwyddo'r iaith i'r to sy'n codi a hefyd o ran sefydlu patrymau defnyddio'r iaith yn ehangach. Fe welwn ni hyn yn flaenoriaeth eithriadol o bwysig.

Canolfannau iaith: Pwerdai'r Gymraeg

Yng Ngwlad y Basgiaid sefydlwyd dros gant o Euskaltegi - canolfannau iaith - ledled y wlad. Yn ogystal â chynnig cyrsiau dysgu Basgeg, mae'r canolfannau'n cynnig cyfle i ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol ac yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau.

Eisoedd dechreuwyd sefydlu canolfannau tebyg yng Nghymru: yn Abertawe, Merthyr Tudful, Wrecsam, Nant Gwrtheyrn a thrwy grantiau'r Llywodraeth bydd rhai yn fuan yng Nghaerfyrddin, Pontardawe, Caerdydd, Llanelli, Bangor a mannau eraill. Sefydlodd 'Popeth Cymraeg' rwydwaith o ganolfannau dysgu Cymraeg yn Ninbych, Llanrwst, Prestatyn a Bae Colwyn. Mae Canolfan Gartholwg ym Morgannwg yn fodel arall.

Ein galwad ni yw bod Llywodraeth Cymru a'r Uned Genedlaethol Cymraeg i Oedolion yn mynd ati, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ynghyd â'r sector preifat, i hwyluso creu rhwydwaith o ganolfannau Cymraeg ledled Cymru.

Mewn aml i achos gallai'r fenter godi o frwdfrydedd lleol; bryd arall gallai'r Uned Genedlaethol a/neu Lywodraeth Cymru wthio'r cwch i'r dŵr. Dyma enghraifft o bartneriaeth ar waith rhwng mudiad yr iaith a Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth ni yw i'r Canolfannau Cymraeg hyn ddod yn fwy o lawer na lleoliadau i ddysgu'r iaith. Fe'u gwelwn nhw yn datblygu'n ganolbwynt i fywyd Cymraeg eu hardaloedd. Fe fyddent yn gwneud hyn yn arbennig mewn cydweithrediad â'r Mentrau Iaith a chyrrff eraill fel yr Urdd a Twf a allai osod eu swyddfeydd ynddynt. Fe fyddent yn sefydlu perthynas agos â'r ysgolion Cymraeg, â sefydliadau megis y Coleg Cenedlaethol Cymraeg a'r Asiantaeth Fusnes Gymraeg, a gyda mudiadau gwirfoddol fel y Ffermwyr Ifainc. Byddai'r darlledwyr Cymraeg a sefydliadau celfyddydol hefyd mewn cysylltiad agos.

Byddai'r Canolfannau Cymraeg yn cynnig amrediad o weithgareddau gan ddatblygu'n gwch gwenyn o ddiwydrwydd a syniadau creadigol. Yno, byddai siaradwyr newydd yn dod o hyd i gymuned Gymraeg ac yn cael cyfle i arfer eu hiaith newydd yn ddilestair.

Rhan o'u swyddogaeth fyddai sbarduno a chefnogi gweithgarwch ledled eu dalgylchoedd. Ymhellach, fe fyddent yn creu rhwydwaith o gyfathrebu electronig a fyddai'n darparu gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg yn y dalgylchoedd yma gan wneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Drwy hyn, byddai siaradwyr Cymraeg yn cael eu cydio ynghyd mewn rhwydwaith gref o gysylltiadau.

Ochr yn ochr â'r Canolfannau Cymraeg, dylid penodi rhwydwaith o fentoriaid iaith, fel sydd yng Nghatalwnia. Eu swyddogaeth fyddai targedu mewnfwydwyr a'r di-Gymraeg, a siaradwyr newydd i'w hannog i ddysgu ac i feistrolu'r Gymraeg, a'u dwyn i mewn i rwydweithiau a chymdeithasau Cymraeg lleol.

Mewn gair, y Canolfannau Cymraeg hyn a'u partneriaid fyddai'n gyrru adnewyddiad y Gymraeg. Ymhellach, byddai'r Canolfannau Cymraeg oll yn ffurfio un rhwydwaith fyddai hithau yn trefnu a hwyluso gweithgareddau cenedlaethol.

Wrth gyrchu at y ddelfryd yma, bydd angen bod yn ddyfeisgar ac yn hyblyg. Gellid ystyried y modelau posibl canlynol, - rhai fel dulliau o wthio'r cwch i'r dŵr:

- **Ilywodraeth leol i gyfrannu adeilad**
- **enwadau crefyddol i gyfrannu capeli nad oes eu hangen mwyach**
- **gwirfoddolwyr yn sefydlu elusen i gynnal adeilad**
- **ysgolion a cholegau i sefydlu canolfan estyn-allan mewn man cyfleus, megis y stryd fawr**
- **defnyddio tafarnau/caffis Cymraeg ar gyfer dosbarthiadau a gweithgareddau**

5 / Y Cyfryngau a Diwylliant

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Sefydlu Uned Ddiwylliant o dan yr Asiantaeth Iaith Genedlaethol er mwyn gosod targedau ar draws y maes fydd yn cynnwys:**
- **Papur dyddiol Cymraeg, gyda darpariaeth gwe yn Gymraeg a Saesneg**
- **Sicrhau dyfodol ariannol S4C**
- **Datblygu dwy orsaf radio Gymraeg**
- **Cwmpasu cyfryngau electronig**
- **Darparu'n effeithiol i rai o bob oed a diddordeb**
- **Cryfhau darpariaeth perfformiadau cerddoriaeth a theatr**

Technoleg Cyfathrebu a'r Gymuned Gymraeg

Wrth i bobl symud o wahanol rannau o'r wlad i'r llall, ac wrth i allfudo ddod yn brofiad cyffredin, mae technolegau cyfathrebu'n rhoi modd i rwydweithiau barhau.

Mae'n hen bryd i ni gyfrif yn y Cyfrifiad y 100,000 a rhagor o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Lloegr ac mewn rhannau eraill o'r byd. Mae S4C a Radio Cymru ar gael trwy wahanol lwyfannau, ac mae'n bryd manteisio i'r eithaf ar y rhain. Mae dylanwad y we wrth ddsygu'r iaith eisoes i'w weld yn glir.

Eisoes mae Mentrau Iaith ym mhob cwr o Gymru'n cyhoeddi gwybodaeth a digwyddiadau trwy e-ddosbarthu, ac mae gan weisg fotymau ar gyfer *Twitter*, *Facebook*, *Instagram*, sianel fideo a phrynu e-lyfrau.

Mae hyn oll yn hynod o berthnasol i'r ffordd y gall cymunedau Cymraeg ddatblygu. Bydd cyfathrebu electronig yn allweddol i dwf cymunedau Cymraeg rhwydweithiol.

Gallai cyfleodd creadigol di-ben-draw darddu o gysylltu'r rhwydweithiau electronig gwaelod-i-fyny byrlymus yma (*Facebook*, *Twitter*, *Youtube* ac ati) â'r cyfryngau mwy traddodiadol, megis teledu, radio a'r wasg brint ac yn wir â'r ddarpariaeth helaeth sydd ar gael drwy'r We fyd-eang.

Dyma sy'n rhoi cyfle i gyhoeddi papur dyddiol Cymraeg, a fydd yn meddu hefyd ar wefan a fyddai ar gael yn Saesneg yn ogystal. Byddai ei rôl yn cynnwys darparu newyddion, ond byddai hefyd yn fforwm ar gyfer dehongli a chyfoethogi pob agwedd o ddiwylliant yn yr ystyr ehangaf.

Daeth yn glir mewn sawl arolwg bod pobl ifanc yn llai tebygol o wrando ar Radio Cymru nag ar orsafoedd cerddoriaeth Saesneg, ac mae gwrandawyr traddodiadol Radio Cymru'n troi at Radio 4. Mae'r angen am ddwy sianel radio wedi ei brofi, ac mae angen gweithredu buan ar hyn. Galwn am sefydlu Radio Un Cymraeg a fyddai'n canolbwyntio ar ddarparu cerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc, gorsaf a allai gael ei rhedeg gan y BBC neu fel 'franchise' lled fasnachol a fyddai'n derbyn cefnogaeth ariannol y Llywodraeth.

Yr un pryd mae angen datrys ariannu S4C, ac i ddiogelu ei hannibyniaeth ariannol wrth i'r BBC ei hun wynebu newidiadau posibl.

Cyfyngedig yw cynlluniau Llywodraeth San Steffan i ddatganoli cyfrifoldeb dros ddarlledu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen pwyso am ddatganoli pellach sylweddol er mwyn gwau ynghyd wahanol edafedd y ddarpariaeth gyfryngol a darparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu gofynion y gymuned Gymraeg.

Mae angen annog gweithgarwch creadigol, addysgiadol ac adloniannol yn y gymdeithas, gan noddi diwylliant traddodiadol a cherddoriaeth boblogaidd. Mae angen darparu ar gyfer gofynion dysgwyr, a sicrhau gwasanaeth radio lleol Cymraeg.

Rydym yn galw'n benodol felly am ddatblygu Uned Ddiwylliant o fewn yr Asiantaeth Iaith Genedlaethol ag ynddi arbenigedd o safon uchel am fyd y cyfryngau. Bydd yr Uned Ddiwylliant mewn sefyllfa i nodi bylchau yn narpariaeth theatr, y wasg, ffilm a cherddoriaeth Gymraeg

gyda'r nod o hyrwyddo bywyd diwyllianol bywiog Cymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'n hanfodol bod yr Uned Ddiwylliant yn meddu ar y gallu a'r statws i ddylanwadu ar adrannau eraill o'r Llywodraeth sy'n ymwneud â'r cyfryngau, ac yn arbennig Adran Busnes a'r Economi gan fod y cyfryngau'n gwneud cyfraniad mor allweddol i ffyniant economaidd Cymru.

Mae meithrin cyd-berthynas fywiol rhwng y cyfryngau torfol a chymunedau'r Gymraeg yn hollbwysig. Dylai fod yna berthynas agos rhwng y darlledwyr a darparwyr pwysig eraill â'r Canolfannau Cymraeg.

6 / Economi Ffyniannus

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Sefydlu Asiantaeth Fusnes Gymraeg**
- **Canolfannau twf mewn ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg**
- **Datganoli sefydliadau cenedlaethol i ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg**
- **Hyrwyddo polisi caffael lleol**
- **Sefydlu Marchnad Llafur Cymraeg i gysylltu'r angen am wasanaethau Cymraeg â siaradwyr Cymraeg.**

Mae Llywodraeth Cymru, o dan arweiniad Edwina Hart, wedi rhoi sylw i ddatblygu'r cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi. Mae economi ffyniannus yn sylfaenol er mwyn sicrhau twf y Gymraeg a rhoi sylwedd i'r weledigaeth o genedl wirioneddol ddwyieithog. Heddiw, wrth i'n cymdeithas gael ei thrawsnewid gan ddatblygiadau technolegol parhaus, rhaid i'r Gymraeg gael ei huniaethu ag arloesedd, arbrofi, cyffro a newid.

Mae Dyfodol i'r Iaith yn gwerthfawrogi pwyslais Llywodraeth Cymru ar greu economi Gymreig lewyrchus. Mae hyn yn hanfodol er mwyn

- **ysgogi ymdeimlad o hunan-hyder cenedlaethol**
- **sbarduno arloesedd busnes**
- **creu amrediad o alwedigaethau a llwybrau dyrchafiad o fewn Cymru**
- **denu cyfran uwch o'n pobl ifanc i adeiladu eu dyfodol yng Nghymru**
- **galluogi'r boblogaeth gynhenid i gystadlu am gartrefi ar y farchnad agored**

Allfudiad a'r Gymraeg

Dros y canrifoedd, achosodd safle ymylaidd Cymru o fewn y Wladwriaeth Brydeinig ac economi is-ddatblygedig i laweroedd o'n pobl ymadael er mwyn ennill eu tamaid neu 'ddod ymlaen yn y byd'. Gwanhawyd y Gymraeg yn arbennig gan yr allfudiad hwn.

Bernir bod o gwmpas 4,000 i 5,000 o siaradwyr Cymraeg yn gadael Cymru'n flynyddol. Mae'n bosibl barnu hefyd bod tua 30% o'r rhai sy'n ymfudo yn aros y tu allan i'r wlad.

Mae amcangyfrif bod tua 100,000 o siaradwyr Cymraeg yn Lloegr, a thua 15,000 arall yn yr UDA, Canada, Patagonia, Awstralia a Seland Newydd, sef tua 20% o holl siaradwyr y Gymraeg.

(Ystadegau o *Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg*, Hywel Jones)

Ochr yn ochr â hyn, mae gan Gymru'r canran uchaf o fewnfudwyr (sef y canran o'r boblogaeth sy'n byw yma, sydd heb eu geni yma) o holl wledydd Ewrop, ar wahân i Latfia.


Mae denu rhagor o'n pobl ifanc i aros yng Nghymru yn flaenoriaeth strategol wrth ymroi i adnewyddu'r Gymraeg. Byddai'n cryfhau'r gymuned Gymraeg ac ar yr un pryd yn cynyddu'n gallu i gymathu mewnfudwyr. Mae mor allweddol fel y dylai llwyddiant o ran denu'r ifainc i aros yng Nghymru fod yn un o brif feini dangosyddion llwyddiant polisi economaidd.

Derbyniwn y math o gynllun sy'n cael ei gyfleu yn y graff yma, o eiddo Mentrau Iaith Cymru:

Mae'n bwysig eithriadol bod buddsoddiad a thwf yn cael eu gwasgaru i wahanol ranbarthau'n gwlad, ac yn arbennig i ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg fel Gwynedd a'r De-Orllewin. Mae'n bwysig gwrthweithio tynfa canolfannau fel Caerdydd, Lerpwl, Llundain a dinasoedd eraill sy'n denu siaradwyr Cymraeg

o ardaloedd y gorllewin ac yn eu gwanhau, drwy greu canolfannau ffyniannus yn yr ardaloedd hynny. Mae Dyfodol am weld lle cynyddol amlwg i'r Gymraeg ym myd busnes yn gyffredinol.

Cafwyd cychwyn drwy benderfyniad S4C i ymsefydlu yng Nghaerfyrddin ac adleoli sefydliadau a gweithgareddau Cymraeg i ardaloedd y gorllewin. Mae'n annerbyniol,



er enghraifft, nad yw pencadlys unrhyw gorff cenedlaethol yng Ngwynedd.

Gellid cysylltu polisi felly â'r syniad o ddatblygu trefi twf Cymraeg.

Polisi caffael

Gall polisi caffael yn lleol gyfrannu at sicrhau mantais i fusnesau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth i'r economi ddatblygu a newid. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i'w groesawu. Gallai datblygu gwedd ranbarthol i waith y Gwasanaeth fod o fudd i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf.

Gweithleoedd

Mae gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu a gweinyddu normal yn adnodd gwerthfawr ac yn allweddol i dwf yr iaith. Cyflawnwyd cryn dipyn yn y maes yma dros y degawdau diwethaf, er enghraifft gan fentrau

datblygu lleol, cwmnïau teledu ac adloniant a rhai cymdeithasau tai.

Asiantaeth Fusnes Gymraeg

Er mwyn sbarduno twf busnesau Cymraeg rydym yn argymhell sefydlu Asiantaeth Fusnes Gymraeg. Ymysg gorchwylion yr Asiantaeth byddai

- **hyrwyddo cydweithrediad a rhwydweithio ymhlith busnesau sy'n gweithio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog**
- **cynnig cyngor a chymorth i rai sydd am sefydlu busnesau a fydd yn gweithio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog**
- **codi proffil busnesau**
- **gweithio gyda'r gwasanaeth gyrfaoedd Gyrfa Cymru i ddatblygu marchnad lafur Cymraeg**
- **hyrwyddo polisiâu caffael lleol**

Byddai'r Asiantaeth yn gweithio'n agos gydag Adran Fusnes Llywodraeth Cymru ac adrannau a chyrrff cyhoeddus eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Marchnad Lafur Cymraeg

Rydym yn cefnogi galwad Mentrau Iaith Cymru i ddatblygu Marchnad Lafur Cymraeg a fyddai'n ffordd o gysylltu'r galw am wasanaethau Cymraeg â siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn fodd o roi seiliau economaidd cadarnach i'r Gymraeg.

Y cam sylfaenol yw adnabod y galw am wasanaethau Cymraeg gan sicrhau yr un pryd bod cyrrff cyhoeddus yn ehangu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd angen cynllunio manwl i roi hyfforddiant iaith, a ddylai gael ei drefnu mewn cydweithrediad â'r Uned Cymraeg i Oedolion. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i siaradwyr Cymraeg, ac i bobl ifanc yn arbennig, weld gwerth economaidd yr iaith, a mynd ati i'w defnyddio yn y gweithle.



7 / Rhoi a Derbyn Gwasanaeth

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Sicrhau tirwedd ieithyddol Gymraeg**
- **Sefydlu'r Gymraeg yn iaith gwaith a gweinyddu mewn llywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus**
- **Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn iaith drafod/lafar**
- **Gwahaniaethu cadarnhaol o blaid y Gymraeg**
- **Trosglwyddo awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru**

Mae'r adran hon yn ymwneud â phob agwedd ar fywyd lle mae'r dinesydd yn derbyn gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Y Dirwedd Ieithyddol

Mae bod i'r Gymraeg le amlwg mewn bywyd cyhoeddus a gweinyddol yn bwysig, nid yn unig o safbwynt hawliau, ond o ran sefydlu parch a bri yr iaith yn y gymdeithas yn gyffredinol. Dyma'r hyn y mae arbenigwyr ar ddwyieithrwydd yn ei alw'n 'dirwedd ieithyddol'.

Mae angen meddwl yn greadigol ynghylch sut y mae defnyddio polisi cyhoeddus i ddatblygu tirwedd ieithyddol sy'n ffafriol i'r Gymraeg, yn hwyluso'i defnyddio ac yn hyrwyddo'i thwf, gan wahaniaethu'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg yn ystod y cyfnod adfywio.

Dyma ddwy flaenoriaeth amlwg.

1 Amlygrwydd Gweledol

Dylai fod y Gymraeg i'w gweld yn amlwg ar arwyddion ac arwyddion ffyrdd, ar arwynebau adeiladau, mewn arddangosfeydd, ar becynnau nwyddau ac mewn siopau ac archfarchnadoedd.

Fel iaith neilltuol Cymru a'r un y mae angen ei chryfhau, y Gymraeg a ddylai gael blaenoriaeth symbolaidd.

Yn anffodus, ac yn rhy aml, gwelir gwallau iaith/sillafu mewn arwyddion Cymraeg. Dylid sefydlu trefn sy'n ceisio gwarantu cywirdeb unrhyw arwydd cyhoeddus Cymraeg.

2 Gwasanaethau wyneb-yn-wyneb

I'r siaradwyr Cymraeg mae'n bwysicach gallu defnyddio'r iaith, ar lafar, wyneb-yn-wyneb, na bod pob ffurflen a dogfen ar gael yn ddwyieithog. Felly, dylai ddod yn gynyddol normal bod modd defnyddio Cymraeg pan fo gwasanaeth yn cael ei roi dros y cownter, mewn swyddfa, gwesty a siop, neu dros y ffôn. Lle nad yw'n ymarferol cynnig gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg, mae cyfarchiad Cymraeg yn symbolaidd bwysig ac yn groesawgar i'r cwsmer Cymraeg. Dylai'r sawl sy'n gallu rhoi gwasanaeth wyneb-yn-wyneb wisgo bathodyn sy'n dangos hynny yn ddieithriad. Ar y ffôn yn enwedig, dylai'r gwasanaeth Cymraeg fod ar gael heb orfod gofyn amdano.

Mae unrhyw wasanaeth sy'n peri bod angen i'r siaradwr Cymraeg orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg yn gosod y siaradwr Cymraeg mewn safle eilradd. Golyga hyn, hefyd, fod amharodrwydd ymysg y rhai gweddol swil eu Cymraeg i ofyn am y gwasanaeth hwnnw, a thrwy hynny nad oes defnydd digonol ohono. Nid yw'r defnydd presennol, felly, yn adlewyrchiad cywir o'r defnydd uwch a fyddai pe na bai'n rhaid gofyn yn benodol amdano.

Y Sector Cyhoeddus

Mae'n bwysig bod y gwaith o ddatblygu safonau yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 2011 yn symud ymlaen yn gyflym ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol ym mhob rhan o Gymru, gan gadw'r blaenoriaethau uchod mewn cof.

Mae Mesur Iaith 2011 yn nodi'r cyrff cyhoeddus a lled gyhoeddus sydd i weithredu'r safonau iaith. Mae angen i'r safonau osod canllawiau pendant am ddefnyddio'r iaith fel iaith gwaith bob dydd mewn cyrff cyhoeddus a lled gyhoeddus.

Cafwyd enghreifftiau eisoes, yng Ngwynedd ac yn Sir Gâr, lle mae uwch swyddogion cyrff cyhoeddus a lled gyhoeddus Saesneg eu hiaith wedi eu penodi, heb unrhyw ofyniad i ddysgu'r iaith, yn groes i ysbryd y safonau. Nid yw'n ymddangos bod y Mesur a'r Comisiynydd Iaith

yn gallu dylanwadu ar hyn. Mae angen safonau cryfach, felly.

Nid yw'n ymddangos ychwaith bod y safonau'n cynnig atebion i gyrff a sefydliadau lled gyhoeddus sydd yn gweithredu'n Gymraeg. Mae angen safonau i ddiogelu hawl cyrff a sefydliadau, fel Theatr Genedlaethol Cymru, i weithredu'n uniaith Gymraeg.

Mae angen bod yn llawer mwy gwylidwrus hefyd o sut mae cyrff sy'n derbyn arian gan y llywodraeth yn defnyddio'r iaith. Mae angen i rai sy'n gwneud gwaith i'r llywodraeth neu sydd ar gontract i'r llywodraeth gael safonau cadarn, a rhaid plismona hyn yn drylwyr.

Mae yn y sector cyhoeddus a lled gyhoeddus ugeiniau o gyrff a ddylai weithredu'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg.

Gweinyddu'n Fewnol

Bu'r penderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith gweinyddu mewnol nifer o gynghorau, yn arbennig Gynghorau Dwyfor a Gwynedd, yn gam aruthrol ymlaen yn natblygiad y Gymraeg. Drwy hynny daeth meistrolaeth ar y Gymraeg yn fantais bwysig wrth ddatblygu gyrfa. Crëwyd peuoedd lle mae defnyddio'r iaith yn naturiol ac yn ddiodyn. Mae hyn hefyd wedi bod yn hanesyddol bwysig i'r iaith.

Wrth i lywodraeth leol gael ei had-drefnu, mae'n hanfodol bod yr enillion yna yn cael eu diogelu a'n bod yn adeiladu ymhellach arnynt.

Dylai fod yn fwriad gan awdurdodau cyhoeddus gynyddu dros amser eu defnydd o'r Gymraeg wrth weinyddu'n fewnol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Lle bo nifer o aelodau staff naill ai'n ddi-Gymraeg neu'n ddihyder yn yr iaith, dylai fod modd eu rhyddhau am gyfnod estynedig i ddilyn cyrsiau.

Mae'n rhesymol bod cyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n dal swyddi, yn enwedig swyddi arweiniol, mewn awdurdodau cyhoeddus o leiaf gyfuwch â chyfran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth. Wrth reswm, bydd y gyfran yma'n codi ym mhob rhan o Gymru wrth i addysg Gymraeg dyfu. Mae'n briodol cychwyn ar system cwota isafswm yn awr.

Y Sector Preifat

Realiti bywyd yw bod y dinesydd cyffredin yn dod i gysylltiad â'r sector preifat yn amlach o lawer iawn na gyda'r sector cyhoeddus. Daw'r amser pan fydd y sector preifat yn ddarostyngedig i Ddeddf Iaith. Yn y cyfamser, dylai'r Comisiynydd neilltuo cyfran sylweddol o'i hymdrechion i gynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth yn y sector preifat. Mae'r sectorau adwerthol, ac i raddau llai cyfanwerthol, yn arbennig o berthnasol.

Yma eto, y berthynas wyneb-yn-wyneb â'r cwsmer sydd bwysicaf. Mae angen dwyn perswâd ar yr adwerthwyr yn arbennig i benodi siaradwyr Cymraeg hyd y gellir i ddelio'n uniongyrchol â chwsmeriaid. Mae angen normaleiddio'r defnydd o fathodynau gallu-siarad-Cymraeg, a sicrhau bod gweithwyr o leiaf yn gallu cyfarch cwsmer yn Gymraeg.

Dylid llunio arwyddion am allu lleoliadau adwerthol i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'w harddangos fel sy'n digwydd gyda sgôr hylendid ar ddrysau bwyta.

Lle bo cwmni masnachol am gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith mewnol ac allanol, dylai fod modd i weithwyr ddilyn cyrsiau dysgu a/neu loywi Cymraeg, yr un fath ag yn y sector cyhoeddus.

Drwy hyn oll, fe ellid trawsnewid y 'dirwedd ieithyddol' yn y sector adwerthol. Byddai hynny'n fanteisiol dros ben i broffil a bri y Gymraeg ac yn peri i'w siaradwyr deimlo'n gysurus ac yn hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud â byd masnach.

Annerch yn Gyhoeddus: cyfarfodydd, pwyllgorau, cynadleddau

Mae'n anochel mai digwyddiadau dwyieithog fydd y rhain gan mwyaf. Gan fod Saesneg yn ddealladwy i bron pawb, rhaid bod cyfieithu ar-y-pryd ar gael a fydd yn galluogi pobl i gyfrannu yn Gymraeg.

Mae angen bod canllawiau ar gael yn enwedig i gadeiryddion dwyieithog am sut i lywyddu cyfarfodydd a chynadleddau. Nhw sy'n dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol y rhai sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau. Dylai'r canllawiau fod yn rhan o'r safonau y mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am eu paratoi a'u heddlua.

Mae ffyniant y Gymraeg fel iaith lafar gyhoeddus yn dibynnu ar fod ei siaradwyr yn ei harddel a'i defnyddio bryd bynnag y mae'n ymarferol gwneud hynny. Bydd hynny yn gynyddol debygol o ddigwydd wrth i strategaeth gyffredinol i adnewyddu'r Gymraeg fagu nerth a momentwm.

Y Gymraeg a'r Gyfraith

Er bod digon o ewyllys da tuag at yr iaith yn y system yng Nghymru ac ambell i farnwr a gweithredwr yn gefnogol iawn, y broblem sylfaenol yw bod ein system gyfreithiol yn un Seisnig a Saesneg.

Mae pob penderfyniad o bwys yn cael ei gymryd yn Llundain ac nid yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried nes ei bod hi'n bryd gweithredu'r polisi neu benderfyniad, ac mae rhywun yn crybwyll Cymru neu'r Gymraeg. Erbyn hynny, mae'r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog yn ychwanegiad hwyr ac yn cael ei gweithredu'n hwyr ac ar ôl i'r system uniaith Saesneg gael ei sefydlu.

Yr unig ateb yw cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, ond mae hynny 10 - 15 mlynedd yn y dyfodol ac felly'n ateb tymor hir. Yn y cyfamser, mae angen trosglwyddo cyfrifoldebau fesul un i'r Cynulliad, a'r un symlaf yw'r iaith. Mae'r Gymraeg yn y Llysoedd fel pwnc wedi'i gadw yn Llundain, er bod cyfrifoldeb dros bob agwedd arall o'r Gymraeg wedi'i ddatganoli. Wrth symud i'r 'model cadw pwerau', gellir ei drosglwyddo i'r Cynulliad. Byddai hynny yn caniatáu deddfu, e.e. ar gyfer rheithgorau Cymraeg a dwyieithog.

Ar hyn o bryd, yn Llys y Goron, caiff tyst ddefnyddio'i hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, ond mae gan dyst Saesneg hawl yn ôl statud fod pob aelod o'r rheithgor yn deall ei iaith. Nid oes y fath hawl gan dyst Cymraeg, a bydd y rheithgor yn clywed ei dystiolaeth trwy gyfieithydd. Caiff y tyst Cymraeg ei drin gan y Llys fel pe bai'n dramorwr.

Mae angen Awdurdod Penodiadau Barnwriaethol i Gymru er mwyn sicrhau nid yn unig fod digon o farnwyr Cymraeg ond bod barnwyr sy'n deall patrymau ieithyddol Cymru. Fel y mae pethau, caiff barnwyr o Saeson neu rai di-Gymraeg eu penodi i ardaloedd Cymraeg, ac mae modd i farnwr neu gofiadur o Sais

benderfynu dyfodol plentyn heb wybod bod addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gael, a heb wybod pwysigrwydd hyn i rai rhieni. Ynglŷn â gweinyddu'r system (ffurflenni, polisïau, systemau cyfrifiadurol ac ati) cangen y Gwasanaeth Llys yng Nghymru ddylai fod yn cynghori Llundain, ond cangen yw hi wedi'r cyfan a'r hyn sydd angen yw cyfathrebu rhwng y ddwy lywodraeth ynglŷn â'r materion hyn. Mae angen i bob ffurflen sy'n cael ei chyhoeddi i rai sy'n rhan o unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru fod yn ddwyieithog.

Caiff y Gymraeg ei thrin yn annheg hefyd wrth bledio. Rhoddir dewis o bledio yn Saesneg neu'n ddwyieithog, ac yn y ddau achos, cofnodir y ple yn Saesneg. Mae'r un peth yn digwydd gyda ffurflenni cofnodi geni, priodi a marw, y gellir eu llenwi yn Saesneg neu'n ddwyieithog, ond nid yn y Gymraeg yn unig. Nid yw hyn yn dderbyniol, ac mae angen i'r modd y caiff y Gymraeg ei thrin yn y gyfraith gyfateb i'r ewyllys da sydd tuag ati.

8 / Cynllunio Defnydd Tir a Chartrefi

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Y Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio**
- **Pennu Ardaloedd ag Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig**
- **Sefydlu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru**
- **Blaenoriaeth i dai cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion pobl leol**
- **Defnyddio system bwyntiau sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl leol**

Dod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng yr angen am ddatblygiadau newydd ac ystyriaethau ehangach fel diogelu'r amgylchedd naturiol, anghenion y gymdeithas leol a lles cenedlaethau'r dyfodol: dyna bwrpas y System Gynllunio. Mae'n amlwg y dylai lles yr iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth o bwys ym maes cynllunio ac mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r ffaith fod y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hynny drwy gynnwys cymal yn y Bil Cynllunio.

Mae'n anffodus, serch hynny, nad oes gan y Gymraeg, fel sydd gan goedwigoedd ac adar, sefydliad i'w chynrychioli pan ddaw hi'n fater apêl yn erbyn datblygiad tai. Dyna pam rydym am weld corff yn cael ei sefydlu, a fyddai'n meddu ar bwerau ymgynghorai mewn achosion o'r fath. Yr un pryd, mae angen Arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru, fel bod holl fater cynllunio'n cael ei drin yng Nghymru.

Mae angen hwyluso'r broses o ystyried arwyddocâd ieithyddol datblygiadau tai newydd trwy sefydlu fframwaith mesur effaith a allai gael ei ddefnyddio ledled y wlad.

Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig

Bydd y broses gynllunio yn arbennig o berthnasol i'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol arferol, a siaradwyr Cymraeg yn 50% neu fwy o'r boblogaeth. Dylai'r system gynllunio mewn ardaloedd felly hwyluso datblygiadau sy'n debyg o gryfhau'r iaith a rhwystro rhai sy'n debyg o fygwth ei safle cymunedol arbennig.

Hefyd rhaid cadw mewn cof bod symudoledd a chymudo i'r gwaith yn nodweddu'r oes yr ydym yn byw ynddi. Bydd angen meddwl yn rhanbarthol yn ogystal ag yn lleol, felly, wrth gynllunio o blaid y Gymraeg.

Dylid penodi ardaloedd â rhagor na 50% o siaradwyr Cymraeg yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig (AAIA). Mewn ardaloedd felly, byddai'r Gymraeg yn ystyriaeth orfodol wrth gynllunio datblygiadau newydd. Lle byddai elfen o risg ynghlwm wrth ddatblygiad a allai fel arall fod yn fanteisiol, byddai rhaid dangos pa gamau lliniarol y byddai angen eu cymryd i ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg, e.e. ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae angen i'r llywodraeth ddatblygu methodoleg ar gyfer penodi AAIA. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen rhoi cyfarwyddyd clir i'r Arolygiaeth Gynllunio fel bod eu penderfyniadau yn adlewyrchu anghenion penodol y Gymraeg.

Cartrefi: Cwrdd ag Anghenion Lleol

Mae angen gwneud cymaint ag sy'n bosibl i sicrhau fod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol.

Yn fynych, gall ffactorau cymdeithasol ac economaidd beri i bobl leol gael eu prisio allan o'r farchnad. Pan fydd cartrefi newydd yn cael eu codi, felly, mae'n gwbl resymol rhoi blaenoriaeth i anghenion lleol ac i'r effaith ar y Gymraeg fod yn ystyriaeth o bwys. Ymhlith y dulliau o wneud hynny, y mae

- system bwyntiau i gartrefi cymdeithasol sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl leol
- cymorth i bobl leol ddod yn berchen ar eu cartrefi
- datblygiadau tai newydd sy'n benodol ar gyfer angen lleol
- cyflenwad digonol o dai cymdeithasol
- cymorth i bobl ifanc brynu eu tŷ cyntaf

9 / Lledaenu Deall Dwyieithrwydd

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Y Llywodraeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith**
- **Cydnabod y Gymraeg yn iaith i'w hyrwyddo ymysg mewnfudwyr**
- **Sefydlu Athrofa Ieithyddol Genedlaethol**

Er mwyn cyrraedd y nod o adfywhau'r Gymraeg, rhaid deall beth y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol a'r camau y bydd angen eu cymryd i'w gyflawni.

Yn rhy aml ar hyn o bryd, mae dwyieithrwydd yn cael ei drafod mewn termau hynod o arwynebol a niwlog.

Y gwaith mawr sydd i'w wneud yng Nghymru yw sicrhau bod gan y Gymraeg ei thir ei hun a hefyd beuoedd digon cadarn fel bod siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cyd-destun cefnogol lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol. Ym maes statws cyhoeddus a thirwedd ieithyddol, mae angen creu'r math o ddwyieithrwydd sy'n ffafrio'r defnydd ymarferol o'r Gymraeg, ac sy'n rhoi statws uwch i'r iaith wannaf. Gan ddilyn yr egwyddor o "wahaniaethu positif", gellid ei galw yn Ddwyieithrwydd Ffatriol i'r Gymraeg.

Yn y Rhaglen hon, rydym wedi gwneud ymdrech i ddisgrifio sut i fynd ati i adnewyddu'r Gymraeg. Rydym wedi pwysleisio, er enghraifft, mai ffenomen gymdeithasol yw iaith a bod angen i'r Gymraeg gael ei chymuned o siaradwyr: cymuned hyderus, ddeinamig sy'n meddu ar ei sefydliadau ei hun ac ar y gallu i ymehangu ac amsugno newydd-ddyfodiaid.

Lledaenu Dealltwriaeth

Mae'n allweddol bod dealltwriaeth o'r cysylltiad yma rhwng dwy iaith yn hydreiddio ein cymdeithas. Er mwyn cael cydsyniad

democrataidd i'r prosiect yr ydym am ymgymryd ag ef, ac er mwyn ei weithredu'n effeithiol, bydd angen i bawb sydd ynglŷn ag ef ddeall yr egwyddorion sy'n ei yrru a'r anghenion ymarferol sy'n rhan ohono.

Mae'r wybodaeth arbenigol am natur dwyieithrwydd ac am adfywhau 'ieithoedd llai-eu-defnydd' ar gael eisoes ymysg academyddion, gweithredwyr amrywiol a chwmnïau sy'n weithredol yn y maes.

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth gynhwysfawr ynghylch creu gwlad lle gall y Gymraeg ffynnu, er mwyn paratoi deunydd y gellid ei ddefnyddio yn hyblyg i ledaenu dealltwriaeth o swyddogaethau iaith drwy'r gymdeithas.

Byddai'r deunydd yna'n cael ei addasu wedyn ar gyfer gwahanol grwpiau, er enghraifft ym maes llafur sefydliadau addysgol, o'r blynyddoedd cynnar hyd at Addysg Uwch ac Oedolion, i athrawon ac addysgwyr, i weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus o bob math: gweision sifil, swyddogion llywodraeth leol, yr heddlu ac ati, ac i gwmnïau masnachol, yn enwedig rhai sydd am weithredu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, a'r sector adwerthol.

Wrth reswm, byddai deall arwyddocâd y Gymraeg ym mywyd a hanes Cymru yn sylfaenol, ond dylid gosod y cyfan mewn cyd-destun rhyngwladol. Mae'n bwysig deall pa mor gyffredin y mae dwyieithrwydd, ac amlieithrwydd, yn y byd cyfoes. Gellir dysgu gwarsi gan wledydd lle mae polisi cyhoeddus yn anelu at gynnal ieithoedd penodol ac annog dwyieithrwydd, megis Gwlad y Basgiaid, Catalonia, Gwlad Belg, y Swistir a Chanada.

Mewnfudwyr

Mae'n bwysig dros ben bod mewnfudwyr i Gymru, o ba le bynnag y maent yn tarddu, yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg ym mywyd y genedl ac o'r bwriad i'w hadnewyddu.

Mae deddfwriaeth Brydeinig yn mynnu erbyn hyn bod mewnfudwyr o wledydd tramor sydd am ddod yn ddinasyddion Prydeinig yn dod yn rhugl mewn Saesneg. Mae dosbarthiadau Saesneg rhad-ac-am-ddim yn cael eu darparu ym mhob rhan o Gymru yn sgil y deddfwriaeth yna. Dylai cynnwys y dosbarthiadau hyn ymgorffori deunydd am arwyddocâd a statws y Gymraeg ym

mywyd Cymru ac am y polisiau sy'n ei hyrwyddo. Dylai fod cyfle i fewnfudwyr hefyd gael gwarsi Cymraeg yn ôl eu dymuniad.

Gellid cynnwys mewnfudwyr o weddill Prydain ymysg rhai y mae angen iddynt ddod yn ymwybodol o hanes a nodweddion ieithyddol Cymru. Mewn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig mae angen mesurau penodol i sicrhau y bydd mewnfudwyr yn deall pwysigrwydd y Gymraeg fel iaith gyffredin ym mywyd y cymunedau y maent yn symud i fyw ynddynt.

Athrofa Ieithyddiaeth Genedlaethol

Mae cryn arbenigedd yn y maes cyffrous hwn yn bod eisoes yng Nghymru, mewn prifysgolion a sefydliadau eraill. Gellid cryfhau'r gwaith drwy ei ddwyn ynghyd mewn Athrofa Ieithyddiaeth Genedlaethol a ellid ei sefydlu dan arweiniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Byddai'r Athrofa yn

- **ffynhonnell arbenigedd wrth ddatblygu polisi a thaenu gwbyodaeth**
- **yn cydweithio i fonitro perfformiad Llywodraeth yn y maes**
- **arwain gwaith ar gorpws (geirfa, terminoleg ac ati) y Gymraeg**
- **dod yn ganolfan ragoriaeth o fri rhyngwladol**

Cymru'n Dangos y Ffordd

Mae'n gwbl realistig i gredu y gallai Cymru ddod yn esiampl rhyngwladol o lwyddiant ym maes adnewyddiad ieithyddol a dwyieithrwydd ymarferol. Fel ased cenedlaethol, testun balchder a llawenydd, y mae gweld y Gymraeg yn ffynnu yn ein cenedl. Mae taenu 'ymwybyddiaeth ieithyddol' ymysg ein pobl yn sylfaenol i weledigaeth felly.

10 / Trefniadaeth Newydd

MAE DYFODOL I'R IAITH YN GALW AM:

- **Sefydlu Gweinyddiaeth iaith gref yn y Llywodraeth i lunio polisiau a thargedau, wedi'i harwain gan arbenigwyr mewn cynllunio iaith**
- **Creu Asiantaeth iaith Genedlaethol hyd braich i weithredu polisiau'r Llywodraeth ac i baratoi adroddiadau a chynghori am hyn i bwyllgor y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Gymraeg**
- **Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus a phreifat yn defnyddio ac yn hybu'r Gymraeg yn eu gwaith.**
- **Mae angen i fuddsoddiad y Llywodraeth yn y Gymraeg fod yn ddigonol i adlewyrchu rhaglen uchelgeisiol o greu dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg.**

Er mwyn bwrw iddi i adnewyddu'r Gymraeg, rhaid cytuno ar strategaeth a'i gweithredu yn gytûn ac yn gyson dros gyfnod hir o amser. Rhaid i'r sefydliadau llywodraethol sy'n gyfrifol am arwain fod yn addas ac yn ddigonol i'r dasg. Bydd angen i bawb sydd â rhan yn y gwaith fod yn gwbl eglur ynghylch hyd a lled eu cyfrifoldeb. Mae'n rhaid iddynt feddu ar yr arbenigedd sy'n berthnasol iddyn nhw a meddu ar awydd a brwdfrydedd.

Yn sgil Mesur y Gymraeg (2011), cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei ddileu yn 2012. Y Bwrdd cyn hynny oedd yn gyfrifol am gytuno Cynlluniau Iaith Cyrff Cyhoeddus, cytuno polisiau iaith gyda'r sector preifat, prosiectau hyrwyddo defnyddio'r iaith yn y cartref ac yn y gymuned, ac am ddyfarnu grantiau. Roedd y Bwrdd hefyd yn gyfrifol am drefnu cynlluniau addysg Gymraeg ac am nifer o agweddau eraill ar gynllunio

ieithyddol. Roedd Deddf Iaith 1993 wedi rhoi'r cyfrifoldeb ar y Bwrdd i wneud unrhyw beth o fewn ei allu i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd y Bwrdd erbyn blwyddyn olaf ei fodolaeth yn derbyn cyllideb o £13 miliwn gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth

Bellach mae cyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a chorff newydd a sefydlwyd gan y Mesur, sef Comisiynydd y Gymraeg. Sefydlwyd swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg ar gost flynyddol o £4 miliwn, gyda £1 filiwn yn mynd ar gostau gweinyddu a £3 miliwn ar gostau cyflogi. Wrth rannu'r dyletswyddau rhwng y llywodraeth a'r comisiynydd, rhoddwyd y gwaith o reoleiddio'r safonau newydd i Gomisiynydd y Gymraeg. Rhoddwyd i'r Comisiynydd hefyd y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r sector preifat, delio â materion yn ymwneud â thechnoleg a therminoleg yn ogystal â bod yn eiriolwr dros siaradwyr y Gymraeg.

Ers sefydlu swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg, gwelwyd crebachu sylweddol ar y dyletswyddau hyn gyda nifer staff y Comisiynydd yn disgyn o 48 aelod o staff i 28 aelod. Cafwyd penderfyniad gan y Comisiynydd i gulhau ei swyddogaethau i'r rhai penodol iawn sy'n cael eu diffinio ym Mesur y Gymraeg ei hun. Yn sgil hyn, cododd aneglurder sylweddol ynglŷn â phwy sy'n ymhél â nifer o'r swyddogaethau hynny sydd ddim bellach yn cael eu cyflawni.

Cafodd nifer o ddyletswyddau eu trosglwyddo yn sgil y Mesur i Lywodraeth Cymru ond oherwydd newid sylweddol mewn personél yn y Llywodraeth nid yw'n glir yn fewnol yn y Llywodraeth pa ddyletswyddau sydd ganddynt a pha dasgau sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn ein barn ni, mae hyn wedi arwain at lesteirio hyrwyddo'r iaith ac at ddryswch. Sefydlodd Mesur y Gymraeg drefn newydd o sicrhau fod cyrff yn y sector cyhoeddus a rhai cyrff yn y sector preifat yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, sef y drefn o osod safonau ar gyrrff. Trefn newydd yw hon nas defnyddiwyd o'r blaen yn unman ac felly mae'n drefn arbrofol.

Gwaith y Llywodraeth yw gosod y safonau a gwaith Comisiynydd y Gymraeg yw eu plismona. Cynigiodd Comisiynydd y Gymraeg safonau drafft i'r Llywodraeth ond cawsant eu gwrthod. Araf iawn fu'r broses o lunio a chytuno safonau iaith ar gyfer cyrff cyhoeddus a hyd yn hyn ni welwyd ôl eu heffaith. Mae perygl hefyd bod llaw drom ac anghreadigol plismona'n niweidio ewyllys da tuag at y Gymraeg.

Ar yr un pryd, gwelwyd yr hen drefn o Gynlluniau Iaith yn cael eu hanwybyddu gan gyrrff cyhoeddus a gan Gomisiynydd y Gymraeg, hefyd. Gwelwyd colli tir sylweddol yn y gagendor rhwng y drefn o gynlluniau iaith a chyflwyno safonau iaith. Mae'r mwyafrif o'r safonau newydd yma'n ymwneud â dogfennau ysgrifenedig. Mae eraill yn ymwneud â phrosesau cwyno os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Mae Mesur y Gymraeg wedi rhoi statws i'r iaith, a thrwy'r Comisiynydd iaith, bydd rhaid i gyrrff cyhoeddus drin y Gymraeg heb fod yn eilradd. Mae hyn yn gwbl allweddol gan fod angen statws deddfwriaethol wrth fynd ati i adfer sefyllfa iaith. Ond mae'r Mesur wedi rhoi mwy o bwys ar y broses gwyno nag ar sut mae hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r broses gwyno yn un sy'n gosod y baich ar y defnyddiwr. Er mwyn i'r broses gwyno lwyddo mae angen i'r defnyddiwr gwyno yn y lle cyntaf i'r corff cyhoeddus sy'n trin y Gymraeg yn annheg. Mae angen felly i'r person sy'n cwyno fod yn hyderus ac yn llythrennog. Mewn cynifer o sefyllfaoedd, mae diffyg hyder gan y siaradwr Cymraeg, yn enwedig diffyg hyder yn ei feistrolaeth o Gymraeg ffurfiol. Golyga hyn mai lleiafrif bach fydd yn defnyddio'r system gwyno. Yn anffodus, mae'r cyfan yn esgor ar feddylfryd bod lleiafrif bach yn cwyno'n ddiflas yn hytrach na bod mwyafrif yn cael mwynhau defnyddio'r iaith.

Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol am effaith Mesur y Gymraeg ar yr Iaith Gymraeg ei hun, ac yn arbennig ar ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith lafar.

Ein barn ni yw bod angen cyfeirio cwmpas gwaith y Comisiynydd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus a phreifat yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hybu'r Gymraeg. Dylai swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sicrhau fod cyrff

cyhoeddus yn gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg, a sicrhau bod pobl yn gweld gwerth amlwg mewn dysgu a siarad yr iaith yn ogystal â chadw eu sgiliau ieithyddol. Mae angen symleiddio'r safonau, a sefydlu safonau ardal fel bod pobl yn gwybod pa wasanaeth Cymraeg sydd i'w gael yn naturiol mewn unrhyw ardal o Gymru.

Er mwyn diogelu annibyniaeth y Comisiynydd yn y swyddogaeth bwysig hon, dylai gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yn atebol iddo, yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru.

Trefn Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ôl Mesur y Gymraeg (2011), prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw 'hybu a hwyluso' defnyddio'r Gymraeg. Gall y Comisiynydd wneud 'unrhyw beth sy'n briodol' i hybu defnyddio'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Yn sgil Mesur y Gymraeg, mae'r Llywodraeth wedi cymryd meddiant o'r gwaith hyrwyddo a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Er bod peth o'r gwaith wedi parhau, mae diffygion amlwg. Mae nifer o brosiectau hyrwyddo wedi eu dileu, a methodd y Llywodraeth â chynraedd ei thargedau ei hun ar gyfer twf addysg Gymraeg. Torrwyd arian Cymraeg i Oedolion yn llym. Gwelwyd crebachu sylweddol ar brosiectau pwysig fel prosiect TWF. Nid oes bellach wasanaeth cyfieithu rhad.

Mae'n dda bod arian yn cael ei roi i sefydlu canolfannau Cymraeg, symudiad y mae Dyfodol i'r Iaith wedi galw amdano, ond mae'n anodd gweld sut mae'r Llywodraeth yn mynd i allu cydlynu gweithgareddau i hyrwyddo'r iaith heb newid sylfaenol yn ei threfniadaeth. Ni wyddom bellach a yw'r pwyslais a gafwyd ar addysg a chynyddu niferoedd yn parhau.

Mae penderfyniadau diweddar, rhai yn gadarnhaol a rhai yn negyddol, yn dangos diffyg cydlynu polisiau a diffyg sylw i egwyddorion sylfaenol cynllunio iaith. O gymharu, mae'r drefn yn rhai o wledydd eraill Ewrop yn drawiadol o drylwyr.

Yng Nghatalwnia, cafodd y Cynllun Normaleiddio iaith ei rannu'n saith o brif feysydd, a'r rhain yn eu tro wedi eu rhannu'n 31 o is-feysydd, gan gynnwys addysg, ymchwil a phobl ifanc,

y cyfryngau torfol a'r wasg, meysydd sosio-economaidd, yn gwmnïau preifat a chyhoeddus, sefydliadau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys crefydd a gweithgareddau hamdden. Bu yno hefyd ymgyrchoedd penodol gan gynnwys Catalaneiddio chwaraeon, newid iaith cyfrifiaduron a hyrwyddo Catalaneg mewn ffilmiau.

Yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid mae tair egwyddor yn sail i weithredu polisi iaith y Llywodraeth, sef democratiaeth - ymateb i ddyddmuniad y boblogaeth; gweithredu cadarnhaol o blaid yr iaith leiafrifol; ac unioni sefyllfa anghyfartal yr iaith. Mae'r Adrannau o fewn y Llywodraeth sy'n hyrwyddo'r iaith yn cynnwys y gwasanaeth addysg, Sefydliad Llythrennedd a Basgeiddio oedolion, a Sefydliad gweinyddiaeth gyhoeddus. Mae gan gynghorau lleol y wlad hefyd adrannau sydd â'r nod penodol o hyrwyddo'r iaith. Yn gysylltiedig â'r rhain, mae lluo o gymdeithasau a chwmnïau preifat sy'n cyfrannu at normaleiddio'r iaith. Ymhlith blaenoriaethau, mae cynyddu niferoedd trwy'r system addysg a Basgeg i oedolion, a chynyddu nifer y cartrefi sy'n defnyddio'r Fasgeg yn iaith gyntaf. Ffrwyth yr ymdrechion hyn yw sefydlu gwasanaethau radio Basgeg, teledu Basgeg, papur dyddiol a rhaglen gyhoeddi helaeth a phoblogaidd ymhlith pethau eraill.

Mae'n eglur mai'r flaenoriaeth gyntaf yng Nghymru yw sicrhau fod gan y Llywodraeth ei hun Weinyddiaeth Gymraeg gref fydd yn arwain datblygiad y Gymraeg ar seiliau cynllunio iaith. Mae'n rhaid i hon gael ei harwain gan arbenigwyr sy'n deall pob agwedd ar gynllunio ieithyddol rhyngwladol sy'n cynnwys rhoi sylw priodol i berthnasedd y cartref a'r gymuned i lewyrch iaith.

Dylid felly benodi ymgyngorydd arbenigol ar gynllunio ieithyddol gyda chyfrifoldeb i arwain ar gyfeiriad strategol ac i sicrhau'r dilyniant, y cysondeb a'r parhad sydd mor allweddol i lwyddiant ym maes adnewyddu iaith. Penodiad parhaol fyddai Ymgyngorydd y Gymraeg yn hytrach na swydd y gallai ei deiliad gael ei newid ar fymrwyr gweinidog, er y byddai angen wrth reswm i'r person brofi effeithiolrwydd yn y gwaith.

Bydd angen i'r Weinyddiaeth hon fod â rôl drawsadrannol yn y Llywodraeth, gan ddylanwadu ar bolisiau ym maes yr economi, cynllunio ac

addysg. Bydd angen i'r Weinyddiaeth osod targedau uchelgeisiol o ran cynyddu niferoedd sy'n meistrolï'r iaith mewn addysg statudol a'r tu hwnt, ond hefyd dargedau cyn bwysiced o ran defnyddio'r iaith yn y cartref, yn y gymuned, yn y gweithle ac mewn gwahanol beuoedd.

Gan mai swyddogaeth Llywodraeth yn gyffredinol yw gosod deddfwriaeth a pholisi yn eu lle, mae'n annhebygol y bydd modd i'r Weinyddiaeth weithredu'r polisiau.

Dyna pam rydym yn galw am greu Asiantaeth iaith Genedlaethol hyd braich sy'n cynnwys cynllunwyr ieithyddol profiadol a fydd yn gyfrifol am weithredu cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd lle mae rhwydweithio rhyngbersonol a chymdeithasol yn digwydd:

- **Yn y cartref a'r teulu estynedig**
- **Yn y gymuned ac mewn cylchoedd rhyngweithio newydd**
- **Ar y we ac mewn cyfryngau cymdeithasol**
- **Mewn busnesau ac yn y gweithle, yn y sector cyhoeddus a phreifat**

Byddai'r Llywodraeth mewn partneriaeth â'r Asiantaeth yn llunio rhaglen waith fanwl ar gyfer yr Asiantaeth hon a byddai'r Asiantaeth yn atebol i'r Llywodraeth. Un o lwyddiannau'r Basgiaid yw eu bod yn trafod pob datblygiad ieithyddol yn fanwl, gyda dadansoddiadau mynych o ddefnydd o'r iaith mewn gwahanol beuoedd, gyda blaenoriaeth i'r cartref. Awgrymir felly bod yr Asiantaeth yn cynnull paneli arbenigol i'w gynorthwyo.

Gwaith yr Asiantaeth fyddai adeiladu pontydd ar draws pob agwedd o fywyd yng Nghymru a symud y ffocws oddi wrth reoleiddio i annog, cymell a chynorthwyo, sef y ffactorau gwirioneddol bwysig wrth adfer iaith leiafrifol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadaeth gydlynus fel bod gwahanol feysydd yn symud i'r un cyfeiriad. Bydd hyrwyddo a mentro wrth arbrofi cynlluniau'n rhan annatod o waith yr Asiantaeth.

Byddai cyfuniad o'r tair elfen a nodir uchod, sef y Llywodraeth yn gosod y nod polisi a'r meini prawf wrth fesur llwyddiant, yr Asiantaeth hyd braich deinamig ac arbenigol, a Chomisiynydd y

Gymraeg sydd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus a phreifat yn defnyddio ac yn hybu'r Gymraeg yn eu gwaith, yn cynnig strwythur a threfn gref, bwrpasol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg dros y degawdau nesaf allweddol hyn.

Mae gan hyn oblygiadau buddsoddi, na ddylid eu hosgoi. Mewn rhai meysydd, e.e. addysg Gymraeg, nid yw'r costau cyfalaf a chynnal yn uwch nag unrhyw system addysg. Mewn meysydd eraill, e.e. Cymraeg i Oedolion, mae angen ystyried bod y buddsoddi'n cyfrannu at lewyrch y Gymraeg dros dymor hir. Mae llywodraethau Ewrop yn gyffredinol yn gwneud y buddsoddiad hwn gyda mewnddyfodiaid ac yn eu systemau addysg. Yn gyffredinol, mae angen buddsoddi gyda hyder ein bod yn creu dyfodol gwell i Gymru a'r Gymraeg.

DYFODOL

DYFODOL I'R IAITH
www.dyfodol.net